# ECO'R WYDDFA

RHIF 20 TACHWEDD 1977 PRIS: 10c

## STAD EISIAU ENW

**BYDDAI'R Cynghorydd Gwyndaf Jones, Llanrug a fu ers mis Mai 1976 yn weithgar iawn y tu ôl i'r llenni yn natblygiad cartrefi'r henoed yn ei bentref, yn croesawu darllenwyr yr *Eco* i roi enw ar y stad. Yr enw a ddyfernir yn fuddugol fydd yr enw swyddogol arni. Anfonwch eich awgrymiadau ynghyd â'r rhesymau am eich dewis i:**


**Gwyndaf Jones,**
**60, Glanffynnon,**
**Llanrug.**

**Cyhoeddir enw'r buddugol yn yr *Eco* yn y dyfodol agos.**

# CARTREF I'R HENOED — O'R DIWEDD


**MAE'N amlwg mai'r geiniog yw dechrau, y canol yn ogystal â diwedd y gân yn natblygiad cartrefi'r henoed yng nghanol pentref Llanrug. Yn ystod y mis diwethaf, ar ôl blynyddoedd o drin a thrafod, dechreuodd y contractwyr ar y gwaith o glirio'r safle'n barod i adeiladu.**

**Mae'r stori yn dechrau yn 1973 pan awgrymodd y Cynghorydd Charles Jones fod angen am gartrefi pwrpasol i henoed ardal Llanrug. Cytunodd Cyngor Gwyrfai, fel yr oeddynt yr amser hynny, ac yn niwedd 1973 aethpwyd ati i geisio prynu'r safle. Penderfynwyd ar y lle sydd y tu cefn i garej 'Snowdon' ger sgwâr Llanrug, tir oedd bryd hynny yn eiddo Mr. Olaf Williams. Tua dwy flynedd yn ddiweddarach, ym mis Ionawr 1976, cwblhawyd y prynu.**




Yn y cyfamser, 'roedd y Cyngor wedi rhoi'r gwaith yn nwylo penseiri gyda'r cyfarwyddyd iddynt gynllunio safle ymarferol a chwaethus, datblygiad sylweddol fyddai'n denu pobl o bell ac agos i'w weld. Bwriedir adeiladu 24 o dai un llawr, dwy ystafell wely, gan gynnwys tŷ warden ac ystafell gymdeithasol i'w defnyddio gan y trigolion. Yn ôl eu hadroddiad, dyddiedig Mawrth 1976, dywed y penseiri Bowen, Dann, Davies, Bangor, fod pob ymdrech wedi ei wneud i ddilyn y traddodiad o dai unllawr, hir ac isel yn cyd-redeg â ffurf y tir ac hefyd, eu bod wedi ystyried anghenion modern megis lle agored a'r darpariaethau arferol. Gwneir ymdrech wirioneddol i gadw'r awyrgylch lleol drwy blannu coed yma ac acw ar y safle a thrwy drwsio rhai o'r waliau cerrig presennol ac adeiladu rhai newydd yn y dull traddodiadol.

Y cam nesaf oedd fod yn rhaid i Gyngor Arfon dderbyn sêl bendith y Swyddfa Gymreig ar eu cynllun er mwyn sicrhau cymorth ariannol i wneud y gwaith. Cytunodd Caerdydd, ac yn ôl yr arfer mewn materion o'r fath, gosododd Arfon y gwaith ar gyfer tendrau. System yw hon ble mae'r cyngor yn rhoi'r cyfle i gwmniau o gontractwyr gynnig eu prisiau am wneud y gwaith sydd ei angen. Gan mai pris 'Ellis a Dyson", Bontnewydd oedd yr un isaf yn yr achos yma, hwy a dderbyniwyd gan gyngor Arfon. Ond ar ôl i hyn gael ei drosglwyddo i'r Swyddfa Gymreig tua'r Pasg eleni, daeth llythyr yn ôl at y cyngor yn gofyn iddynt gwtogi'r cynllun o £35,000. Llwyddodd y penseiri i wneud hyn ond gan na fyddai digon o elw yn deillio o'r gwaith, ar yr 20fed o Fai gwrthododd Ellis a Dyson ymgymeryd â'r cynllun.



*Llun y penseiri o'r safle ar ôl ei gwblhau.*

Mewn llythyr dyddiedig 8ed o Orffennaf datganodd y Swyddfa Gymreig nad oeddynt yn barod i dderbyn yr agosaf at yr isaf o'r tendrau, sef cynnig Edward Jones, Penmaenmawr. Awgrymwyd ganddynt fod Cyngor Arfon, unwaith eto, yn gosod y gwaith i dendrau ac hefyd yn gwneud cwtogiad arall o £5,500. Yn yr un llythyr gofynnwyd i'r cyngor ail-ystyried y cynllun yn ei gyfanwaith, a hyn, cofier, ar ôl iddynt fod yn trin a thrafod y gwaith am flwyddyn a hanner. Awgrymasant rai agweddau ble gellid arbed arian; er enghraifft, 'roeddynt yn methu gweld gwerth mewn dwy ystafell wely ac hefyd 'roeddynt yn amau awgrym y cyngor o gael clarc gwaith llawn amser yn gysylltiedig â'r cynllun. (Byddai'r gwaith yn parhau am 18 mis.)


Unwaith eto, llwyddodd y penseiri â'u cribau mân, i wneud y dasg. Torrwyd tua troedfedd ar hyd bob tŷ ac ailwampiwyd y storfeydd cadw glo ac aethpwyd mor bell ag awgrymu defnyddio hoelion toi o waelach ansawdd na'r rhai copr y bwriadwyd eu cael.

Fis yn ddiweddarach, ar y 9fed o Awst daeth llythyr eto o'r Swyddfa Gymreig yn derbyn Edward Jones, Penmaenmawr i wneud y gwaith ac hefyd yn awgrymu fod Cyngor Arfon wedi cwtogi £595 yn ormod.

**Yn wyneb yr holl ystyriaethau ariannol yma, mae elfen gref o dristwch yn y ffaith y gallasai'r Swyddfa Gymreig fod wedi gwario £28,000,000 yn ychwanegol ar gynlluniau adeiladu yng Nghymru – swm syfrdanol na chafwyd budd ohono.**

Beth bynnag, ar ôl yr holl oedi, y cynllunio, yr ailwampio a'r holl drin a thrafod, da o beth yw gweld fod Cyngor Arfon wedi dal ati ac wedi mynnu fod henoed yr ardal yn cael cartrefi teilwng mewn awyrgylch ddeniadol.

*Isod gwelir llun y penseiri o ffurf y tai; hir ac isel, gyda'u waliau gwyn a'u toau llechi. Sylwer ar y waliau sych traddodiadol a'r llwyni a'r coed oddi amgylch.*



# ECO'R WYDDFA

RHIF 20 TACHWEDD 1977

**Golygydd:**
Arwel Jones,
Gwên-y-Wawr,
Glanffynnon,
Llanrug.
*Ffôn: Caernarfon 3719*

**Is-olygydd:**
Twrog Jones,
Pros Kairon,
Glanffynnon,
Llanrug.
*Ffôn: Caernarfon 4051*

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd,
Nant Peris.

*Cyhoeddwyd gyda chymorth Cymdeithas Gelfyddydau Gogledd Cymru.*

## DIOLCH

Dymuna Eco'r Wyddfa ddiolch i'r canlynol am eu cyfraniadau hael tuag at gostau cynhyrchu'r papur. £5: Di-enw, Waunfawr; £1.50: Y Parch. John Owen, Rhuthun; £1: Mr. Eric W. Jones, 41 Normandy Road, North Allerton, Swydd Efrog; Mr. Colin Davies, Chesterfield; Di-enw gynt o Gwm-y-glo; Di-enw o Lanberis; 50c: Di-enw – Llanberis.

*8 Glanrafon*
*Nant Peris.*

*Annwyl Olygydd,*

*"MARGED UCH IFAN"*

*Fe ddywed eich gohebydd yn* **Eco'r Wyddfa** *y mis diwethaf:*

*"Ers dyddiau Thomas Pennant mae hanes yn cysylltu enw Marged â Phen Llyn, ond yn Nhalyrnia yn agos i'r Gelli yn Nyffryn Nantlle y treuliodd y rhan fwyaf o'i hoes. Yr oedd hen wraig arall o'r un enw'n byw ym Mhen Llyn yn y 18ed ganrif, gan fod cofnod claddu yng Nghotrestr Eglwys Llanrug – Margaret ferch Evan Llwyncoed yn 91 mlwydd oed." Gofynnir, "Os nad hon oedd y Farged Uch Ifan enwog ymhle y claddwyd honno?"*

*A all rhyw hanesydd daflu goleuni ar y mater? Credaf mai mewn tŷ o'r enw 'Penllyn' yn Nant Peris (mae'r tŷ i'w weld heddiw, yn furddun bellach) y bu Marged ferch Ifan yn byw y rhan fwyaf o'i hoes. Gelwid hi yn 'Frenhines y Llynnoedd', ar sail ei masnach gyda'i chychod ar lynnoedd Padarn a Pheris. Y dyddiau hyn mae olion masnach yr hen Farged yn cael eu claddu gan yr argae newydd ym mhen uchaf Llyn Peris.*

*Bu Marged farw rywbryd tua'r flwyddyn 1789 ar ôl cyrraedd yr oedran teg o 102, ac heb fod erioed yn ei gwely oherwydd afiechyd.*

*Yn gywir,*
*J. Ellis (Perisfab)*

# LLYTHYRAU

*3 Adelaide Terrace,*
*Waterloo,*
*Lerpwl.*

*COFIO 1914*

*Annwyl Olygydd,*

*Oes yna rhywun yng nghylch yr Eco yn cofio'r trip hwnnw yn 1914 i'r Vaynol yn dilyn llwyddiant Jerry M. (ceffyl Mr. Asheton Smith) yn y Grand National yn Lerpwl? 'Roedd gweithwyr Chwarel Dinorwig yn cael 'treat' a chael mynd â'u gwragedd hefo nhw yn y trên i'r Vaynol. Cofio cychwyn o Gilfach Ddu hefo pobl Llanberis, codi pobl Cwm-y-glo a'r cylch ym Mhenllyn yna ymlaen a chodi mwy ym Mhontrhythallt. Cyrraedd y Felinheli ac yna i'r Vaynol i gael te parti a gweld o gwmpas y stad. Pawb wedi mwynhau eu hunain yn fawr. Dod yn ôl hefo'r trên chwarel am chwech o'r gloch. Yn wir cawsom gymaint o fwynhad ag y mae pobl heddiw yn ei gael mewn awyren!*

*Yr oeddynt yn dechrau talu pob pythefnos yn lle pob mis yn 1914. Amser caled iawn yn wir – ond pawb rhywsut yn cael llawer iawn mwy o bleser. Pawb yn gorfod bod yn hapus a bodlon ar ychydig a'r ychydig yn eu bodloni. Diwedd 1914 yr hen hogia yn gorfod mynd i'r rhyfel mawr. Ia, blwyddyn i'w chofio oedd 1914.*

*Yn gywir,*
*A.C. Williams,*
*(gynt o Gwm-y-glo).*

*YCHYDIG RHAGOR AM ROBERT PARRY*

*Diddorol dros ben oedd darllen teyrnged* **Eco'r Wyddfa** *i'r diweddar annwyl Robert Parry, Ceunant, Llanrug. Dyma yn ddiddadl efallai un o wŷr mawr ein cyfnod cyn belled ag mae tegwch a chyfiawnder y chwarelwyr yn y cwestiwn. Fel un a gafodd ei eni mewn ardal chwarelyddol fel Blaenau Ffestiniog cofiaf yn dda am y sôn a fyddai'n aml ymhlith y chwarelwyr yno am yr arwr hwn.*

*Tybed a fyddai hyn o ddiddordeb pellach i ddarllenwyr* **Eco'r Wyddfa?** *Pan yn Weinidog yn ninas Lerpwl daeth cyfaill o'r enw Mr. Roose Williams, (brodor o Fangor) â gwaith ymchwil manwl i gael ei rwymo at gyfaill arall i mi. Am yr ymchwil hwn y derbyniodd Mr. Roose Williams ei radd M.A.. Testun y llyfr oedd 'Robert Parry the Quarryman's Champion'. Ys gwn i tybed beth ddaeth o'r llafur gwerthfawr hwn? Gwn fod ynddo tua chant o ddudalennnau a gwnaeth fy nghyfaill y cyfan yn llyfr clodwiw. O ganlyniad i ddamwain bu Mr. Roose Williams farw tua chwe mlynedd yn ôl bellach, 'rwy'n weddol sicr. Ar wahân i draethawd gwerthfawr y diweddar Owen Thomas, Min-y-Rhos, a ysgrifennwyd ar gyfer y Capel Mawr a fyddai'n cynnal Eisteddfod (Eisteddfod Capel Mawr, M.C., 1944) byddai cael gafael ar y gwaith ymchwil hwn yn dra derbyniol.*

*Parch. Emyr Owen,*
*Tywyn, Gwynedd.*

*Belvidere Strawberry Cross,*
*Backford, Chester.*

*Annwyl Syr,*

*HEN DDIHAREB*

*Fel pob dihareb arall mae'n bur debyg fod treigliad amser wedi newid ychydig arni. Cofiaf Jane Jones, Y Cwm Uchaf, Llanberis dros hanner can mlynedd yn ôl, yn adrodd ac ail-adrodd yr hen ddihareb yn ei dull ei hun, ac yn wahanol i'r un a ymddangosodd yn rhifyn Medi o* **Eco'r Wyddfa**. *Dyma hi:*

**Pe byddai'r Wyddfa fawr yn gaws**
**Fe fyddai'n haws cael cosyn:**
**A phen y Foel yn fara gwyn,**
**Bydd haws pryd hyn cael enllyn.**

*Credaf fod rhediad hon yn fwy mydryddol na'r un a gyhoeddwyd.*

*Yr eiddoch yn gywir,*
*Wm. Ffowc Roberts.*

**GWILYM JONES**
**Monumental Works**
**LLANRUG**

Gwaith Coffaol o bob math mewn llechi a gwenithfaen gan grefftwyr lleol



FFÔN :
CAERNARFON 2898

*MYNWENT Y PLWYF*
*NANT PERIS*

*Annwyl Olygydd,*

*Rhyw bythefnos yn ôl, 'roeddwn mewn angladd yn y fynwent uchod, ac euthum o gwmpas i edrych ar rai o'r beddau eraill oedd yno, ac yn enwedig bedd hen gyfaill i mi, un oedd wedi rhoi cymaint o'i oriau hamdden i lanhau ac i gadw'r ddwy fynwent mor dwt a thaclus.*

*Heddiw yr oedd golwg druenus ar yr hen fynwent, a dywedais wrthyf fy hun, "Bobl annwyl, mae hi yn chwith am Harri Bach"; mor daclus 'roedd hi rhyw ychydig fisoedd yn ôl yn y fynwent yma."*

*Cyfeirio yr oeddwn at waith taclus y diweddar Harry Jones, Tanyffynnon, Nant Peris.*

*Yr oedd Harri Bach (fel y galwyd ef gan ei gydweithwyr ar y Cyngor Sir) yn rhoi bron o'i holl amser hamdden i gadw'r fynwent a'r beddau mewn trefn, a hynny ar ôl gwaith caled, diwyd, a gonest ar y Sir.*

*'Rwyf fi fy hunan wedi ymddeol o'r Cyngor Sir ers rhai blynyddoedd, ond mor ardderchog oedd gweld cymaint o'i gyd-weithwyr o'r Cyngor wedi dod i dalu eu gwrogaeth i'w cyfaill, ac yn cael cyfle ar yr un pryd i weld ei waith o gwmpas y beddau.*

*Chwi aelodau Eglwys y Plwyf, Nant Peris, gallwch chwi gydweld â mi. Gresyn o beth na fuasai rhywun wedi rhoi ateb i W.D. Bangor pan yn ymgom ag ef, am y golled fawr gawsoch o golli un oedd wedi rhoi cymaint o'i amser a'i gariad tuag at y fynwent a'r Eglwys hon.*

*Ceisiwch gofio am deimlad anwyliaid wrth ddarllen yr erthygl gan W.D. Bangor, a cheisiwch dalu teyrnged i un a roddodd gymaint o'i amser i gadw yr hen fynwent mor daclus a thwt.*

*W.D. Llanberis.*

*COFIO CARNIFAL DDOE*

*Fy mrawd Evan Williams, Bryn Afon, Cwm-y-glo yw'r tramp â'r het galed yn y llun o hen garnifal Llanrug a ymddangosodd yn rhifyn Medi o* **Eco'r Wyddfa**. *Yr oedd ar wyliau o'r Hen Goleg, Caerfyrddin lle yr oedd yn Athro Mathemateg ar y pryd. Coleg Diwinyddol yr Annibynwyr oedd yr Hen Goleg y pryd hynny. Yng Nghae Bryn Bras yr oedd y Carnifal lle mae'r Parc Carafanau yn awr. Byddai'r plant yn cael cerdded trwy'r giatiau uchaf trwy'r gerddi o flaen y Castell a chael Ceiniog Newydd gan Mrs. Bernard ar ben y steps yn arwain i'r lôn isaf. Cafodd Evan ei ladd yn Ffrainc ar Orffennaf 20 1918. Buasai yn 89 oed yn awr.*

*Yn gywir,*
*Mrs. Jennie Evans.*

# LLANRUG

**MERCHED Y WAWR** — Cynhaliwyd cyfarfod o'r gangen uchod nos Fawrth, Hydref 11eg, gyda Mrs. Nansi Roberts yn y gadair. Cafwyd arddangosiad a sgwrs ar waith llaw gan Mrs. Morgan Jones, Waunfawr. Diolchwyd iddi gan Mrs. Catrin Roberts, Tŷ Capel. Penderfynwyd ymuno fel grŵp â Chwmni Theatr Cymru. Rhoddwyd adroddiad o gyfarfod y rhanbarth gan Mrs. Beth Anne Williams, Llys Meirion i gynrychioli'r gangen yn y Cyngor Cenedlaethol yn Aberystwyth. Diolchwyd am y lluniaeth gan Miss Iona Jones. Trefnir bws i fynd i weld 'Siwan' yn Theatr Gwynedd ar y 29ain o Hydref.

**PLAID CYMRU** — Agorwyd y tymor gyda Noson Goffi yn y Sefydliad Coffa a'r Cynghorydd Mrs. Pat Larsen yn wraig wadd.

**DYWEDDÏAD** — Llongyfarchiadau i Miss Annette Knox, merch Mr. a Mrs. Eddie Knox, Bron Haul ar ei dyweddïad â Mr. Anthony Naylor, mab Mr. a Mrs. Frederick Naylor, 1 Cefn Coed, Penisarwaun.

**LLONGYFARCHIADAU** — i Mr. a Mrs. L. Schudlak, Trem Elidir, Minffordd ar enedigaeth merch fach, Lynn Marie.

**FFAIR FIHANGEL A THAITH GERDDED** — Cynhaliwyd Ffair Fihangel hynod o lwyddiannus yn Ysgol Gynradd, Llanrug ar Nos Gŵyl Fihangel. Yr oedd yr elw er budd Cronfa Atgyweirio Eglwys Sant Mihangel. Dymuna'r Rheithor ddiolch i bawb am eu cefnogaeth ac i'r merched a fu mor brysur yn darparu ar gyfer y Ffair. Ein diolch hefyd i'r Prifathro am ei barodrwydd i'n cynorthwyo o dan amgylchiadau anodd ac i Staff y gegin am eu rhan hwythau.

Y Sadwrn 1af o Hydref aeth nifer o feibion ac un ferch ar daith gerdded o 12 milltir er budd yr un gronfa a bu yn hynod lwyddiannus. Diolch i bawb am eu cydweithrediad.

**LLONGYFARCHIADAU** — i Mr. Gareth Williams, Gwydryn Newydd ar ei lwyddiant yn ei Arholiadau yn ddiweddar.

**UNDEB Y MAMAU** — Agorwyd gweithgareddau tymor 1977–78 gyda gwasanaeth yn yr Eglwys o dan arweiniad y Rheithor. Yn ystod y gwasanaeth derbyniwyd aelodau newydd, sef Mrs. E. Jones, Y Storfa, Mrs. M. Jones, Tai Bryn Afon a Mrs. B.V. Shenton, Rochdale House. Darparwyd te yn y Rheithordy gan Mrs. Williams ar ol y gwasanaeth.

**CLWB BLODAU'R GRUG** — Cynhaliwyd cyfarfod yn y Sefydliad Coffa brynhawn dydd Iau, 13eg Hydref. Llywyddwyd gan y Rheithor. Y gŵr gwadd oedd John Ogwen, yr actor enwog a Darlithydd yn yr Adran Ddrama ym Mhrifysgol Bangor. Cafwyd sgwrs hynod o ddiddorol ac addysgiadol iawn ganddo. Darllenodd hefyd stori fer o waith Awen Mona a mwynhawyd y cyfarfod gan bawb. Cyfeiriwyd at waeledd amryw o'r aelodau ac estynnwyd cydymdeimlad at aelodau mewn profedigaeth. Diolchwyd i'r gŵr gwadd gan Mrs. Williams, Tremallt.

**CINIO'R HENOED** — Paratowyd gwledd ardderchog i'r henoed gan Mrs. E. Jones, Pennaeth Cegin, Ysgol Brynrefail, yn cael ei chynorthwyo gan staff y gegin. Yn dilyn, cafwyd gwledd arall o ganu ac adrodd gan barti'r Traeth o sir Fôn. Yn ystod y cyfarfod cyflwynwyd anrheg i Mr. Owen Jones, Bro Rhyddallt gan staff y gegin i ddymuno'n dda iddo ar ei ymddeoliad. Cyflwynwyd cerdyn wedi ei arwyddo gan bawb i Mrs. Jones. Diolchwyd gan y Rheithor yn cael ei ategu gan Mr. T. Thomas, Tai Arfonia.

**DIOLCHGARWCH AM Y CYNHAEAF** — Cynhaliwyd Gŵyl Ddiolchgarwch am y Cynhaeaf yn Eglwys Sant Mihangel ar Sul 9ed Hydref ac ar ddydd Llun y 10ed. Y Rheithor a weinyddai'r Offeren yng Ngwasanaethau Bore dydd Sul a thraddododd anerchiad yng ngwasanaeth y plant yn y prynhawn. Cymerwyd rhan yn y gwasanaeth hwn gan blant yr Ysgol Sul a chyflwynasant eu rhoddion o ffrwythau a llysiau i'w rhannu i'r henoed ym Mhlas Pengwaith. Canwyd Gosber nos Sul gan y Rheithor a phregethwyd gan y Parch. E. Wheldon Thomas, Ficer Nefyn. Canwyd yr organ gan Mr. J. Morris, Glanffynnon. Y Parch. Ganon Alun Jones, Llanberis oedd pregethwr gwadd nos Lun, canwyd y Gosber gan y Rheithor a'r organyddes oedd Mrs. R.J. Owen, Glasdy. Addurnwyd yr Eglwys yn eithriadol o hardd gan nifer o'r chwiorydd a'r Rheithor.

**DIOLCH** — Dymuna teuluoedd o Lanrug sydd â pherthnasau ym Mhlas Pen Gwaith ddiolch yn gynnes i Reithor a phlant Eglwys Sant Mihangel ac hefyd i aelodau Côr Ysgol Dolbadarn am eu rhoddion o ffrwythau a blodau.

**GWAELEDD** — Dymunir adferiad buan i Mr. Orwig Roberts, Elidir View, sydd ar hyn o bryd yn yr ysbyty ym Mangor. Dychwelodd Mr. Harold Williams, Elan Wen a Mrs. Gwyneth Griffith, Goleufryn gartref ar ôl rhai dyddiau yn yr ysbyty. Da deall eu bod yn well.

**DYMUNIADAU DA** — i deulu 10 Afon Rhos sydd yn symud i fyw i Ddeiniolen cyn bo hir. Dymunwn bob hapusrwydd iddynt yn eu cartref newydd.

**CYDYMDEIMLO** — Trist oedd clywed am farwolaeth Mr. John William Jones, Bod Ifor a Mrs. Ellen Evans, Llys Myfyr. Ein cydymdeimlad diffuant â'r teuluoedd yn eu galar. Cydymdeimlwn hefyd â Mrs. Jean Lloyd Jones, Llys Elen ar farwolaeth ei thad.

**TEYRNGED I JOHN W. JONES:**

**Dy briod, dy gartref, dy ardd, dy gi,**
**Dy gapel, dy ganu, a geraist ti.**
**Ar amrant daeth gwŷs 'it' eu gadael hwy**
**Cei bellach orffwyso mewn gwlad ddi-glwy.**

**Auntie Maggie (Bryn Du)**

**DIOLCH** — Dymuna Mrs. Ena Jones, Bod Ifor, ddatgan ei diolchgarwch i berthnasau, cymdogion a chyfeillion am y cydymdeimlad caredig a ddangoswyd iddi yn ei phrofedigaeth sydyn ac annisgwyl o golli ei phriod, John, ac am y cardiau a'r llythyrau sydd yn rhy niferus i'w hateb.

**NEWYDDION Y SEINDORF** — Bore Sul y Cadoediad am chwarter i ddeg, cenir dwy emyn gan y Seindorf o flaen y Sefydliad Coffa. Yn ddiweddarach yn y bore, byddant ar y Maes yng Nghaernarfon.

Dydd Sadwrn, Tachwedd 19eg, byddant yn cystadlu yn Rali Bandiau Gogledd Cymru yn Connah's Quay.

Cynhelir Tombola yn yr Ysgol Gynradd, nos Fercher, Tachwedd 30ain.

Estynnir cydymdeimlad Aelodau'r Seindorf a'r Pwyllgorau â Mrs. Jean Jones, Llys Elen yn ei phrofedigaeth o golli ei thad.

**PRIODASAU** — Yn Eglwys Sant Mihangel, Llanrug, priodwyd Mr. John Richard Jones, mab Mr. a Mrs. John Jones, 17 Glanmoelyn a Miss Nerys Wyn Lewis, merch Mr. a Mrs. Humphrey Lewis, 7 Rhos Rug. Yng Nghapel Seilo, Caernarfon priodwyd Mr. Rheon Thomas, mab Mr. a Mrs. R.O. Thomas, Gerallt, a Miss Einir Ellis Jones, merch Mr. a Mrs. Ellis R. Jones, 28 Maes Gwynedd, Caernarfon. Ein dymuniadau gorau i'r ddau bâr ifanc yn eu bywyd priodasol.



*Mr. Rheon Thomas a Miss Einir Ellis Jones ar achlysur eu priodas. Y llun trwy garedigrwydd yr Herald.*

**CROESO ADREF** — i Mr. Meuryn Huws-Roberts, Park Villa, sydd wedi dod adref o'r Dwyrain Canol am fis o wyliau at ei fam.

**CYFARFOD SEFYDLU'R PARCH. D. REES ROBERTS** — Nos Wener, Hydref 14eg, sefydlwyd y Parch. D. Rees Roberts yn weinidog ar ofalaeth Garreglefn a'r cylch. Y Parch. W.O. Roberts oedd yn rhoi siars i'r Eglwysi. Mae'r Parch. D. Rees Roberts yn briod â Carys, merch hynaf Mrs. Megan Williams a'r diweddar Mr. Robert Williams, Tan-y-Gaer, Pontrhythallt. Dymunir yn dda i'r ddau yn eu gofalaeth gyntaf.

**CYMDEITHAS CHWIORYDD (Capel Mawr)** — Nos Iau, Hydref 6ed cafwyd noson goffi gyntaf y tymor. Daeth cynulliad da ynghyd ac anfonwyd ein cofion a'n dymuniadau da at y chwiorydd sydd mewn gwaeledd. Cafwyd adroddiad gan y Trysorydd, Mrs. Jones, Ogwen, a threfnwyd at gyfarfod pnawn Llun Diolchgarwch sydd fel arfer o dan ofal y chwiorydd. Dechreuwyd y noson trwy ddefosiwn gan y Llywydd, Mrs. Nansi Roberts, Annedd Wen. Diolchwyd i amryw am eu cyfraniadau er yn methu bod yn bresennol. Rhoddwyd y coffi gan Mrs. Beryl Thomas, Gerallt a Mrs. Nansi Roberts, Annedd Wen. Bydd y cyfarfod nesaf Tachwedd 3ydd am saith o'r gloch.

**DIOLCHGARWCH (Y Capel Mawr** — Daeth cynulliadau da iawn i'r oedfaon ddydd Llun Diolchgarwch eleni fel arfer. Yn y bore, treuliwyd oedfa hyfryd gyda'r plant yn arwain yn yr addoliad. Y maent yn rhy lluosog i'w henwi gan fod 85 ohonynt yn cymryd rhan. Gwnaeth pob un ohonynt eu gwaith gyda graen a didwylledd. Cyfeiliwyd wrth yr organ gan Mrs. Nansi Lovatt, Brwynog a Mrs. Catrin Roberts, Tŷ Capel, a Mrs. Carys Jones, Gwen-y-Wawr gyda'r gitâr. Llywyddwyd gan y Gweinidog y Parch. W.O. Roberts, a rhoddodd anerchiad i'r plant.

Y chwiorydd oedd yn arwain yng nghyfarfod y prynhawn o dan lywyddiaeth Mrs. W.O. Roberts. Cymerwyd rhan gan Mrs. Meryl Williams, Mrs. Joan Griffith, Mrs. Catrin Roberts, Mrs. Doris Evans, Mrs. Linda Jones, Mrs. Carys Jones, Miss Rhian Davies, Miss Beryl Wyn Jones, Mrs. Siân Williams, Mrs. Mary Roberts, a Mrs. Catherine Owen. Y cyfeilydd oedd Mrs. Mair Jones, Ogwen. Treuliwyd cyfarfod yr hwyr mewn gweddi gyda brodyr yr eglwys yn cymryd eu rhan.

**DIOLCHGARWCH (Capel M.C. Pontrhythallt)** — Cynyddodd yr Ysgol Sul yn sylweddol yn ddiweddar a daeth nifer o blant a'u rhieni i'r Oedfa Ddiolch a drefnwyd iddynt brynhawn Sul, Hydref 16eg. Daethant â'u rhoddion o ffrwythau, llysiau a blodau a rhannwyd hwynt i gleifion a henoed yr eglwys. Arweiniwyd y gwasanaeth gan y plant a rhoddwyd anerchiad byw ac amserol iddynt gan Mrs. Mary Lloyd Williams, Llys Awen. Mrs. W.A. Jones, Y Dalar Deg a Mrs. E. Thomas, Dolwar fu'n gyfrifol am ddysgu'r plant. Nos Lun cafwyd Cyfarfod Gweddi bendithiol iawn.

**FFAIR GAEAF RIGARUG** — Cyfarfu Pwyllgor y Merched i drefnu Ffair Gaeaf Rigarug a gynhelir yn Neuadd Ysgol Brynrefail, nos Iau, Tachwedd 10ed. Etholwyd swyddogion: Cadeirydd: Mrs. Carys Jones, Gwen-y-Wawr; Ysgrifennydd: Mrs. Eirlys Pierce Swyn-yr-Awel; Trysorydd: Mrs. Beth Anne Williams, Disgwylfa. Mae'r canlynol yn gyfrifol am wahanol stondinau:

**Teisennau:** Mrs. J.C. Williams, Bod Fair **Bwyd:** Mrs. Olwen Llywelyn, Pantafon Bach. **Cynnyrch Cartre':** Mrs. Beth Anne Williams, Disgwylfa. **Gwaith Llaw:** Mrs. Carys Evans Carwyn a Mrs. Owen, Trigle. **Eliffant Gwyn:** Mrs. E. Thomas, Dolwar. **Dillad Cystal â Newydd (Plant ac Oedolion)** : Mrs F. Roberts, Sycharth. **Planhigion:** Mrs W.A Jones, Y Dalar Deg. **Llyfrau a Chomics:** Mrs. Ann Llwyd, Pros Kairon Glanffynnon. **Teganau Ail-law:** Mrs. Lovatt Brwynog. **Fferins:** Mrs. Catrin Roberts, Tŷ Capel Mawr.

Os gallwch gyfrannu mewn unrhyw ffordd, byddai'r merched a enwir uchod yn ddiolchgar o dderbyn addewidion a rhoddion cyn gynted ag sydd bosib.

Edrychwch yn ffenestri'r siopau am ragor o wybodaeth.

Mae Twmpath Dawnsio Gwerin wedi ei drefnu hefyd yn Ysgol Brynrefail ar nos Iau, Tachwedd 3ydd. Croeso cynnes i bawb.

**DIOLCH**— Dymuna Nerys a John Richard Jones, 2 Gwynfryn, Stryd yr Orsaf, ddiolch i'w teulu, ffrindiau, cymdogion a chydweithwyr am yr anrhegion gwerthfawr, arian a chardiau a dderbyniwyd ar achlysur eu priodas.


STORFA

**Mace**

**S.&E. Jones**

**Llanrug**

FFÔN: Caernarfon 2790

**BLODAU A FFRWYTHAU YW EIN HARBENIGRWYDD**

**S. JONES**

**CYFANWERTHWR FFRWYTHAU**

*(WHOLESALE FRUITERER)*

**Y STORFA LLANRUG**

**FFÔN CAERNARFON 2790**

# PONTYDD PONT–RHYTHALLT

**Chwi gofiwch i'r Eco gyhoeddi erthygl ym mis Hydref dan y pennawd "Pwy Biau'r Bont?" pryd y crybwyllwyd am y pryder a ddangoswyd gan drigolion ardal Pontrhythallt ynglŷn â "chyflwr adfeiliedig, a pheryglus tair pont yn yr ardal."**

Pan gododd Pat Larsen y cwestiwn o gyfrifoldeb tuag at eu hatgyweirio, datgelwyd fod un o'r pontydd yn ddi-berchennog. Datgelwyd hefyd y byddai Cyngor Sir Gwynedd yn ddiolchgar am unrhyw wybodaeth gan nad oes hawl ganddynt i wario ar drwsio pont "sydd yn eiddo preifat."

Aeth un o ohebwyr *Eco'r Wyddfa*, sef Dafydd Whiteside Thomas, ati i olrhain hanes y tair pont a dyma ffrwyth ei ymchwil:



Ceir cyfeiriad at bont yn croesi'r afon ym Mhontrhythallt mor bell yn ôl â 1553, yng nghofnodion y Llys yng Nghaernarfon, pryd y rhoir gorchymyn i Ieuan ap Rheinallt o Rug, i adgyweirio, gyda help plwyfolion Llanrug, Llanddeiniolen a Llanfairisgaer, bontydd Rug a Rhythallt. ('Roedd rhan o ardal Pontrug yn Llanfairisgaer y pryd hwnnw.)

Mewn traethawd ar 'Hanes Capel Nazareth, Pontrug', gan Evan W. Evans, Sarn, Pontrug, a gyhoeddwyd yn 1891, mae'n nodi fod "y Bont Rug bresennol wedi ei hadeiladu yn 1770". O bosibl fod y bont yn bod lawer blwyddyn cyn hyn, ac mai cyfeirio at adgyweirio'r bont a wna Evan Evans yma, oherwydd mae contract i adgyweirio'r bont yn bod, dyddiedig Medi 13eg, 1779. Dau ŵr o Gaernarfon (John Hughes a Lewis Ellis) a gafodd y gwaith i ledu a gwella cyflwr y Bont Rug, ar gost o £27. Y rhesymau dros ei gwella sydd fel a ganlyn: "difficult and inconvenient to pass with carts and other carriages on account of the uncommon height of the summit thereof, and it was deemed absolutely necessary to alter it." Cytunodd y ddau weithiwr, nid yn unig i adeiladu waliau o bob ochr i'r ffordd yn croesi'r bont, ond i gario pridd a rwbel oddeutu'r bont, fel y gellid codi'r ffordd a arweiniai ati o'r ddwy ochr. Roeddynt hefyd i gadw'r bont mewn cyflwr da am gyfnod o bum mlynedd.

CONTRACT 1829

Mae contract debyg yn bodoli ynglŷn â Phont Rhythallt, dyddiedig Medi 26 1829, gyda'r teitl: *"Specifications of repair, widening and amending Rhythallt Bridge."* Gosodir y gwaith allan yn fanwl gywir mewn ysgrifen, plan a llun o'r bont yn dangos y newidiadau a'r gwelliannau. Mae'n amlwg fod y gŵr a luniodd y gontract yn adeiladydd, oherwydd mae'n nodi mesurau'r ffordd a thrwch y waliau a'r colofnau sydd i'w hadeiladu. Ond nid yr un bont yw â'r un sydd yma heddiw – nid oedd y Rheilffyrdd wedi eu hadeiladu y pryd hynny, ac felly, nid oedd y bont mor uchel. Er hynny, 'roedd tri bwa i bont 1829 fel ag i bont heddiw, ond fod hyd o wal rhwng y bwa cyntaf a'r ddau arall yn 1829, ac nid colofn yn unig fel sydd rhwng y tri bwa heddiw. Yn 1829, 'roedd yr afon yn ymrannu'n ddwy – un rhan yn llifo o dan y bwa cyntaf, a'r rhan arall dan y ddau fwa arall. 'Roedd tro yn y bont yn y cyfnod hwnnw hefyd, sef rhwng y bwa cyntaf a'r ddau arall. 'Roedd lled yr afon o dan y bwa cyntaf yn 17 troedfedd dan yr ail fwa yn 16 troedfedd a 3 modfedd, a than y trydydd bwa yn 18 troedfedd. 'Roedd y golofn rhwng yr ail a'r trydydd bwa yn 11 troedfedd, ond nid yw'r pellter rhwng y bwa cyntaf a'r ail yn cael ei nodi, er y gallai fod tua 36 troedfedd (dyma'r rhan sy'n ymrannu'r afon yn ddwy). 3½ troedfedd oedd uchder y wal rhwng y bwa cyntaf a'r ail. Ar yr ochr ogleddol, 'roedd y ffordd i'w chodi o ddwy droedfedd am bellter o 65 llath, ac ar yr ochr ddeheuol, ei chodi 1½ troedfedd am bellter o 30 llath. Rhaid oedd i'r gweithwyr hefyd osod 4 modfedd o raean bras dros y bont, ac am bellter o 100 llath o bob ochr iddi. Y gwaith arall i'w wneud oedd palmantu gwely'r afon o dan y tri bwa â cherrig. 'Roedd y gwaith i'w orffen erbyn Ionawr 1af, 1830.

Y pedwar gŵr a dderbyniodd y gontract i ledu ac adgyweirio'r bont oedd – John Jones, Llanwnda (saer maen); Edward Parry, Caernarfon (saer maen); John Hughes, Caerhyg, Llanwnda (ffermwr); a Robert Davies, Caernarfon (llosgwr calch). Gwerth y gontract oedd £118. 17s. 0c. Mae John Jones ac Edward Parry yn rhoi eu marc ar y gontract, a'r adeiladydd a'r cynllunydd yn arwyddo'i hun – J.W. Lloyd, County Surveyor.

MAPIAU

Mae mapiau ar gael yn dangos cynllun llwybr rheilffordd Caernarfon – Llanberis, dyddiedig 1863–64. Dangosir pont Rhythallt ar y mapiau.

Yn y mapiau rheini, dangosir fod ynys yn yr afon o dan y bont ym Mhontrhythallt. Dyma felly yr achos fod yr afon yn ymrannu'n ddwy. Perchennog yr ynys a'r tir ar yr ochr isaf i'r bont ym mhlwyf Llanddeiniolen yn 1863–64 oedd Thomas Rice Thomas. Dyma dir felly yn perthyn i stad Coed Alun, Caernarfon a'r Glasgoed, Llanddeiniolen. Beth tybed ddigwyddodd i'r ynys? 'Roedd y tir ar yr ochr uchaf i'r bont ym mhlwyf Llanrug yn eiddo i Goleg Magdalen, Caergrawnt, sef rhan o fferm Eithin Duon. Y tenant yn 1863 oedd David Morris, (brawd i daid Syr John Morris Jones). Mae'n amlwg fod rhannau o'r tiroedd hyn wedi eu prynu gan y 'London and North Western Railway' pan ddechreuwyd adeiladu rheilffyrdd Caernarfon – Llanberis. Dyma'r adeg yr adeiladwyd dwy bont arall ym Mhontrhythallt – y ffordd dros y rheilffordd, a'r rheilffordd dros yr afon. Mae'n eithaf tebyg i gynllun hen bont 1829 gael ei newid yn y cyfnod hwn. Bydd angen mwy o ymchwil i ddarganfod beth yn hollol ddigwyddodd.

## DISGO NEWYDD

**Mae cangen Adfer Dinorwig wedi prynu offer Disgo newydd ac fe'i defnyddir gan yr hogia lleol o dan yr enw 'Disgo'r Graig'. Maent eisoes wedi profi eu hunain yn boblogaidd gyda'r ifanc. Yn sicr, gyda'r offer newydd bydd galw mawr am eu gwasanaeth. Gweler yr hysbyseb isod am fanylion.**


**Mudiad Adfer – Dinorwig**

DAWNSFEYDD
A
PHARTION NADOLIG
A'R
FLWYDDYN NEWYDD
Beth am adloniant gan

**Disgo'r Graig**

DISGO GORAU'R FRO

Cysyllter â

Kelvin Pleming, 1 Maes Eilian, Dinorwig, Caernarfon

Meirion Thomas, 1 Bro Elidir, Dinorwig, Caernarfon

*TELERAU RHESYMOL*


# Cyfle i wneud cymwynas

AFRAID dweud bod llawer o ddefnyddiau cyfoethog ar gael o hyd ar lafar gwlad a bod diogelu a throsglwyddo'r defnyddiau hyn yn gymwynas fawr. Er mwyn annog pobl i gofnodi un agwedd werthfawr ar y diwylliant llafar hwn fe osodir cystadleuaeth arbennig yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Caerdydd a bydd unrhyw ddefnyddiau a anfonir i'r gystadleuaeth, pa mor fychan bynnag y bo, yn gyfraniad o bwys. Amhosibl yw cyfeirio at holl agweddau amrywiol y maes, ond dyma enghreifftiau o'r math o eitemau a olygir. Rhennir y gystadleuaeth yn ddwy adran:

**A. Casgliad o storiau, dywediadau, llysenwau neu rigymau a adroddir am drigolion gwahanol ardaloedd a siroedd yng Nghymru.**

**B. Casgliad o storiau, dywediadau, llysenwau neu rigymau am ymwelwyr â Chymru.**

**Gorau po fwyaf o fanylion y gellir eu cynnwys gyda phob stori, dywediad, llysenw neu rigwm, megis:**

**i. Ffynhonnell y wybodaeth (os yw'n wybyddus). E.e., enw ac ardal y person y clywsoch y wybodaeth ganddo/i, ble a pha bryd.**

**Gyda defnydd sy'n wybodaeth gyffredinol mewn ardal, da fyddai nodi hynny.**

**Os gwyddoch mai darllen y wybodaeth a wnaethoch, dylid cyfeirio, os yn bosibl, at enw ac awdur y llyfr/erthygl ac at rif y dudalen.**

**ii. Cefndir y wybodaeth. E.e., os gwyddoch am stori, hanesyn neu draddodiad sy'n egluro'r dywediad, llysenw neu rigwm, dylid eu cynnwys.**


***Wavell Roberts***

**CIGYDD**

**LONDON HOUSE
LLANRUG**

**Ffôn: Caernarfon 3574**

***PEN CIGYDD Y FRO!***

**Yr ŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref, cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist**

**MYNNWCH Y GORAU
A DEWCH ATOM NI!**

# BRYN REFAIL

**I'R AMERIG** – Cyn y bydd y rhifyn hwn o'r 'Eco' wedi ymddangos, bydd Bryn a Lorraine Williams, Isallt, wedi cyrraedd Atlanta, Georgia am ddau fis o wyliau gyda theulu Lorraine. Dymunwn bob hwyl iddynt.

**PROFEDIGAETH** – Cydymdeimlwn â Mrs. Dilys Jones, Cytir a'r teulu oll yn eu profedigaeth o golli Mr. Cyril Jones, Penygroes. Magwyd ef yma yn ein plith – ei gartref yn Nhros yr Afon.

**YR ŴYL DDIOLCHGARWCH** – Cafwyd tri chyfarfod yn y capel ddydd Llun, Hydref 17eg. Cymerwyd rhan yn oedfa'r bore gan Mri. Islwyn Williams, R.W. Evans a Maurice Jones. Y plant ac ieuenctid yr Ysgol Sul dan ofal eu hathrawon oedd yn gyfrifol am wasanaeth y prynhawn ac arweiniwyd mewn defosiwn gan Miss A.M. Williams. Yng nghyfarfod gweddi yr hwyr cymerwyd rhan gan Mri. G.W. Williams, Elfed Roberts a Bertie Ll. Roberts.

**O'R YSBYTY** – Dymunwn wellhad buan i Mrs. Jennie Hughes, Bryn Garth 'rôl dychwelyd gartref o'r ysbyty.

**Y GYMDEITHAS LENYDDOL** – Nos Iau, Hydref 6ed, cafwyd cyngerdd cyhoeddus i agor gweithgareddau'r gymdeithas am dymor y gaeaf. Diddanwyd cynulleidfa luosog gan Barti Glynrhonwy, Teulu Tŷ'r Ysgol Dinorwig a Mr. Arwel Jones, Llanrug. Y llywydd oedd Mr. R.W. Evans, a chafwyd gair o ddiolch gan Mr. Bertie Roberts. Trefnwyd y lluniaeth ar ddiwedd y cyfarfod gan Mrs. Helen Roberts a diolchir i bawb am eu rhoddion. Ar ddiwedd y noson, enillwyd gwobr a gyflwynwyd gan Mrs. Euronwy Roberts gan Mr. Ted Morris, arweinydd Parti Glynrhonwy. Bydd cyfarfod nesaf y Gymdeithas nos Iau, Tachwedd 3ydd, pryd y disgwylir cwmni Y Parch. Gareth Maelor Jones, Y Cartref, Bontnewydd.

**CLWB DEG A DEUGAIN** – Cynhelir Noson o Dân Gwyllt yng nghae Chwarae'r penrref am 6 o'r gloch nos Sadwrn, 5ed o Dachwedd.

**CLWB Y MAMAU** – Cafwyd noson ddifyr nos Iau, 13eg Hydref yng nghwmni dwy aelod o gymdeithas y "Gingerbread".

Diolchwyd i'r ddwy chwaer gan Mrs. Moira Ellis. Cafwyd y te drwy garedigrwydd Mrs. Carol Houston a Mrs. Shirley Roberts. Rhoddwyd y raffl gan Mrs. Jackie Jones ac fe'i henillwyd gan Mrs. Audrey Roberts.

**CLWB DEG A DEUGAIN** – Enillwyr: wythnos: 1.10.77: 1. Annie Walters, 2. Dilys Evans; 3. Judie Walton. Wythnos 8.10.77: 1. Lowri P. Williams; 2. Colin Wager; 3. Carol Houston. Wythnos 15.10.77: 1. Eirianwen Evans; 2. Sheila Roberts; 3. Eifion Roberts.

**CYMDEITHAS Y BEIBLAU** – Capel Brynrefail oedd cyrchfan Ysgolion Sul Dinorwig, Deiniolen a Phenisarwaun ar bnawn Sul, Hydref 2ail, pryd y cynhaliwyd Oedfa Undebol dan nawdd Cymdeithas y Beiblau. Llywyddwyd y Cyfarfod gan y Parch. Geraint Edwards yn cael ei gynorthwyo gan y Parch. Eryl Lloyd Davies. Ieuenctid Eglwys Brynrefail oedd yn gofalu am y defosiwn ar ddechrau'r Cyfarfod, ac eleni eto tystiwyd i safon uchel yr eitemau a gyflwynwyd gan unigolion a phartion o'r Ysgolion Sul i'r Cyfarfod Undebol sydd erbyn hyn yn rhan o galendr eglwysi'r cylch.



*Dyma ddarlun o Gwmni Drama Brynrefail oddeutu'r flwyddyn 1910. O'r chwith i'r dde, y rhes uchaf: Wm. Ffoulkes, Bryn Derw; Humphrey Owen Ceris; J.D. Roberts Deiniol House; Evan Jones, Tros yr Afon. Y rhes nesaf: Sam Pritchard Gorffwysfa; Annie Roberts Bryn Derw; Edward Thomas Coed Madog; Owen Williams Adwy'r Dwr. Yn eistedd: Hugh O. Ellis Penrallt; Maggie Pritchard Gorffwysfa; Cissie Parry Bryn Myfyr; Fliza Jones Gweledfa; W.F. Williams Adwy'r Dwr; Annie Roberts Dinorwic House. Ar lawr: Jane Anne Williams Greuor Villa; Annie J. Owen Bronafon; Elizabeth Roberts Dinorwic House. (Y llun trwy garedigrwydd Miss Violet Roberts Deiniol House).*

## FFISIG I'R DOCTOR YN LLANBÊR

**Fe brofodd aelodau'r Gymdeithas Feddygol dipyn o rin ardal Llanberis yn ystod eu cynhadledd ddiwethaf a gynhaliwyd yng ngwesty'r Dolbadarn, ar y penwythnos cyntaf ym mis Hydref.**

Yn ôl yr arfer, fe gafwyd darlithoedd o'r safon uchaf, ac nid oedd yn agos at ddigon o amser i'w gael at drafod y gwahanol bynciau y bu'r darlithwyr yn ymwneud â hwy. Bu'r seiadu answyddogol tan oriau mân y bore yn falm i enaid ambell aelod, a'r croeso a'r awyrgylch Gymreig yn amheuthun.

Ar ôl cinio ar y nos Sadwrn, fe gafwyd Noson Lawen lwyddiannus eithriadol yng ngofal Golygydd *Eco'r Wyddfa* a pharti Alawon Menai.

# DINORWIG

**CRONFA EISTEDDFOD GENEDLAETHOL CAERNARFON** – Daeth nifer da o oedolion i'r ganolfan nos Iau Medi 22 i drefnu cynllun i godi arian i gronfa'r Eisteddfod Genedlaethol. Y cynllun fydd gofyn i bob cartref gymryd tocyn a rhoddi 10c yr wythnos i'r casglyddion a byddant hwythau yn arwyddo'r tocyn wrth dderbyn yr arian.

Os oes mwy nag un aelod o'r teulu yn derbyn cyflog mae rhyddid iddynt hwythau gymryd tocyn.

Bydd y casglyddion yn dechrau ar eu gwaith ddiwedd Hydref gan fawr obeithio y byddant yn cael derbyniad da ymhob cartref.

Mae'r bobl ifainc wedi rhoddi swm sylweddol o arian i'r Gronfa yn barod ac mae mwy i ddod.

Bydd y cyfarfod nesaf yn y Ganolfan Hydref 27. Croeso cynnes i'r holl ardalwyr.

**CLWB IEUENCTID** – Swyddogion y clwb eleni yw: Arweinydd: Mr. Emlyn Hughes, Bethel; Llywydd: Mr. Kelvin Pleming; Ysgrifennydd: Caren Jones; Trysorydd: Mr. Meirion Thomas; Pwyllgor: Carl Haffen; Iola Griffith; Glenys Roberts; Annette Roberts; Eric Williams; Steven B. Jones; Alwena Morris.

**PRIODI** – Hydref 1 yn Eglwys Sardis (B) priodwyd Miss Elenyd Parry Jones, Tan Buarth Uchaf a Mr. Maldwyn Owen Jones, 30 Maes Padarn, Llanberis. Gweinyddwyd gan y Parch. Ifor L. Williams, Bangor. Dymunir pob llwyddiant i'r pâr ieuanc yn eu bywyd newydd. Byddant yn byw yn Llanberis

**CYMDEITHAS FEIBLAU** – Diolchir i blant eglwysi'r cylch am eu cyfraniad yng nghyfarfod y Gymdeithas Feiblau a gynhaliwyd yng Nghapel MC, Brynrefail pnawn Sul Hydref 2.

**DYMUNO'N DDA** – Dymunir yn dda i Mr. Glyn Thomas, 1 Bro Elidir a Mr. John Eryl Roberts, 3 Maes Eilian, y naill ar ei fynediad i Goleg Llandâf, Caerdydd a'r llall i Goleg Caerfyrddin.

**CYMDEITHAS UNDEBOL (Dinorwig)** – Nos Iau, Hydref 13, yn y Ganolfan agorwyd tymor eleni o'r Gymdeithas trwy gyngerdd gan Barti Eryri. Y llywydd oedd Mrs. M. Wyn Jones, Bethel. Mwynhawyd y noson yn fawr gan yr aelodau. Mae rhaglen ddiddorol wedi'i threfnu ar gyfer y tymor.

**DATHLU** – Nos Sul, Hydref 16, unodd aelodau Eglwys Dinorwig MC yng nghwasanaeth y Cymun yng Nghapel Coch MC Llanberis, fel rhan o ddathlu Dau Canmlwyddiant yr achos yng Nghapel Coch, a hefyd cofio marw'r Parch. John Roberts (Ieuan Gwyllt) yn 1877, cyn-weinidog o'r eglwys.

**GŴYL DIOLCHGARWCH** – Cynhaliwyd Gŵyl Diolchgarwch eglwysi'r ardal ar y Sul, Hydref 16, a'r Llun Hydref 17.

**EGLWYS SARDIS (Dinorwig)** – Nos Sul, Hydref 16 cynhaliwyd Oedfa Ddiolchgarwch arbennig yng Nghapel Sardis pan ymunodd aelodau ei chwaer eglwys o Libanus, Clwt-y-bont, gydag aelodau Eglwys Sardis i ddiolch am y cynhaeaf, ac i ddathlu chwarter canrif eu gweinidog, y Parch. Ifor Williams, yn y weinidogaeth yn ogystal ag i ddathlu priodas arian Mr. Williams a'i briod.

Trefnwyd rhaglen neilltuol ar gyfer y cyfarfod gan Miss Ellen Wyn Jones (Sardis) a chymerwyd rhan yn y rhaglen gan blant ac aelodau o'r ddwy eglwys pryd y cafwyd blas ar wrando ar Mr. John Emrys Morris (Libanus) yn adrodd rhai o'i atgofion ef am weinidogaeth Mr. Williams o 1952 i 1977.

Yn ystod y cyfarfod cyflwynodd Miss Ellen Wyn Jones faromedr i Mr. Williams yn rhodd iddo ef a'i briod oddi wrth y ddwy eglwys ar yr amgylchiad a chyflwynodd Catherine Lewis (Libanus) dusw o flodau i Mrs. Williams.

**MUDIAD ADFER** – Nid oes raid atgoffa ifainc y fro o lwyddiant y ddwy ddawns a gynhaliwyd yn ystod y mis diwethaf o dan nawdd y gangen leol yn y Ganolfan Gymdeithasol.

Diolch i'r ddau grŵp trydanol, 'Tocyn Chwech' a 'Sos Coch', ac nid oes unrhyw amheuaeth nad yw'r ddau grŵp yma wedi ennill dipyn o ddilynwyr ymysg yr ifainc ar ôl eu perfformiadau gwefreiddiol. Diolch i'r bobl ifainc am eu cefnogaeth, ac i'r siopwyr lleol, Swyddfa Bost Dinorwig, Co- op Deiniolen a'r Cynghorydd James ac i bobl ifainc Dinorwig am drefnu'r cyfan.

Drwy gynnal y ddwy ddawns casglwyd £40 tuag at Gronfa Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon a bydd y swm ariannol yma yn cael ei gyflwyno i drysorydd y Gronfa Leol.

Bydd y ddawns nesaf yn cael ei chynnal ar Hydref 21, gyda'r grŵp 'Alecs' yn perfformio yng nghwmni 'Disgo'r Graig'. Bydd elw'r noson yma yn mynd at gostau cyhoeddi llyfr bro cyntaf yr ardal a ddaw allan cyn y Nadolig.

**CYDYMDEIMLAD** – Ein cydymdeimlad dyfnaf â Mr. Lesley Otter, Afallon ar golli ei unig frawd yn frawychus o sydyn yn Nottingham yn ddiweddar.


E.W.&M.WILLIAMS



Y BECWS
DEINIOLEN
FFÔN : LLANBERIS 232

BARA FFRES – TEISENNAU BLASUS !

*(Rydym yn arbenigo mewn teisennau Priodas)*

***

DOSBARTHWN BOB LLUN, MERCHER A GWENER
YN NEINIOLEN, DINORWIG, FACHWEN,

# SIBRYDION O'R YSGOLION

## YSGOL BRYNREFAIL

### NOSON GOFFI

Nos Fawrth, Hydref 10ed, agorodd un o gyn-athrawon yr ysgol, Mrs. Menna Williams, Waunfawr, Noson Goffi lwyddiannus yn yr ysgol. Diolchwyd iddi gan Delyth Williams, Capten y genethod eleni, a chyflwynodd Tracey Riley, dosbarth cyntaf, dusw o flodau hardd iddi. Yn ystod y noson cafwyd Arddangosfa Gelf a Chrefft, Dawnsio Creadigol a Sioe Ffilmiau. Dymuna'r Prifathro ddiolch i bawb fu'n cynnal a chefnogi'r noson; a gwnaethpwyd elw o dros £350 tuag at Gronfa'r Ysgol.

### GŴR GWADD

Yn ystod y mis cafodd rhai o blant yr ysgol, a 30 o blant Syr Hugh Owen, Caernarfon, ddarlith gan John Wain, y Nofelwr, ar y llyfr y mae'n ei ysgrifennu ar hyn o bryd.



### TYSTYSGRIFAU

Cyflwynwyd tystysgrifau i Bethan Wyn Jones a Dylan Cadwaladr Parry am fynychu'r ysgol heb golli diwrnod llynedd. Disgybl yn Ysgol Dolbadarn yw Bethan; mae Dylan ar ei flwyddyn gyntaf yn Ysgol Brynrefail.

### CLWB MYNYDDA

Yn ystod y mis aeth Clwb Mynydda'r Ysgol ar daith i fyny Mynydd Tryfan. Yr oedd 12 o blant a 4 athro yn y grŵp a chafwyd Sadwrn pleserus dros ben yn troedio'r mynydd.

### DISCO

Yn ystod y mis cynhaliwyd Disco yn yr ysgol, wedi ei drefnu gan y Chweched Dosbarth. Gwnaethpwyd elw o dros £100, a bydd y Chweched Dosbarth yn defnyddio'r arian i gynnal Parti Nadolig yn yr ysgol i blant Ysgol Pendalar, Caernarfon.

### CAPTEINIAID YR YSGOL

Capteiniaid yr ysgol eleni fydd: Genethod: Capten: Delyth Williams, Cwm-y-glo; Is-gapten: Helen Hughes, Deiniolen. Bechgyn: Capten: John Armor Roberts, Llanrug; Is-gapten: Richard Griffiths, Llanrug.

### CWRS MAES YM MAENTWROG

Treuliodd rhai o ddisgyblion Daearyddiaeth y 6ed Dosbarth ychydig ddyddiau ym Mhlas Tan y Bwlch, Maentwrog y mis hwn. Gyda'r disgyblion ar y Cwrs Maes oedd yr Athro Daearyddiaeth, Mr. John Lloyd.

## YSGOL PENISARWAUN

Yn ddiweddar daeth tîm Ysgol Waunfawr draw i chwarae yn erbyn tîm yr ysgol hon ar Gae Deiniolen, ac er ymdrechu'n galed colli o 4 gôl i 0 fu hanes yr hogiau lleol.

Ymwelodd plant y dosbarth hynaf, ynghyd â rhai o blant safon 1 a 2, ag Amgueddfa Chwarel Llanberis, yn ddiweddar. Cafwyd amser difyr, ac fe'u tywyswyd o gwmpas gan Mr. Huw Jones, y curadur.

Dymuna'r Prifathro ddiolch yn gynnes i'r rhieni am haelioni eu cyfraniadau o ffrwythau a llysiau tuag at Gartref Bontnewydd. Cafwyd Gwasanaeth Diolchgarwch yn yr ysgol bnawn Gwener, cyn cau am y gwyliau.

Bwriedir cynnal Noson Goffi yn yr ysgol nos Wener, Tachwedd 18, yr elw at Gronfa'r Ysgol.

Cefnogwch ein Hysbysebwyr

# Maes y Merched

**TYBED a yw'r dywediad "Ymddengys yr hyn a fwytei yn dy wyneb" neu yng ngeiriau'r Sais, "You are what you eat" yn codi dychryn yn eich calon?**


Na, nid sôn yr ydwi am y modfeddi sbâr o gwmpas eich canol ar ôl hufen iâ y gwyliau, ond yn hytrach am werth bwydydd naturiol a'r ffordd y maent yn amddiffyn ein cyrff yn ddiarwybod inni. Tybed mai traddodiad yn unig sy'n peri i'r henoed yn ein cymdeithas gadw i'w patrwm o fwyta bwydydd syml, naturiol, p'run ai dyma enghraifft eto o'r "hen a ŵyr..."

Beth am y cudd feddyginiaethau yma — hen goel neu beidio, rhowch dro i rai o'r rhain.

Mae sudd letus y peth gorau at fethu cysgu, wedi ei ferwi fel te, neu fel llysieuyn poeth i ginio. Gwell nag unrhyw dabled, medd "insomniacs". Defnyddir sudd tatws i wella'r gwynegon neu gowt wrth gymryd hanner gwydriad (yn gymysg â sudd moron os mynnwch) dair gwaith y dydd am fis. I leddfu poen llosg defnyddir tatws crai wedi eu gratio'n ffres a'i dasgu hyd wyneb y croen. Ac am gur pen mae tysen wedi ei sleisio ar y talcen yn curo asbrin.

Cysylltir garlleg (garlic) â iechyd da a hir oes. Mae'n antibiotig ac yn antiseptig a gallwch gael gwared â'r blas cryf wrth gnoi persli ffres neu gnau coffi. I wneud tonig garlleg cymysgwch un rhan wedi ei falu â dau ran o win gwyn a'i adael am bythefnos. Cymerwch un llond llwy de bob bore ac ymddengys na fyddwch yr un person mewn mis o amser! Beth am y radys o'r ardd? — diflas a diwerth, meddech! Ond yn ôl pob coel maent yn cryfhau y gwaed, yn codi archwaeth am fwyd ac wedi eu cymysgu â halen ac oel olewydden yn driniaeth penigamp am 'hangover'.

Mae i ffrwythau hefyd eu gwerth neilltuol i wella'r corff. Mae apricot a mêl yn donic effeithiol i'r nerfau ac ar yr un pryd y mae'n meddalu a chlirio ansawdd y croen. Os y bwytewch rawnwin yn gyson gallwch atal y gwynegon a cherrig yn yr arennau. Dywedir fod afalau a grawnwin yn gwella gwasgedd uchel y gwaed. Defnyddir ffrwyth y papaya (paw paw) i drin afiechydon yr iau, y galon a'r dŵr ac efallai y clywsoch yn ddiweddar i'r dail ffres gael eu defnyddio i wella briwiau go ddrwg ar y croen — hyn oherwydd priodweddau ensym arbennig ynddynt. Mewn sudd lemon ceir meddyginiaeth nid yn unig i atal gwynegon a'r annwyd cyffredin ond hefyd mae'n effeithiol i drin llosg haul.



**TOMATO FWYA'R FRO?** 'Roedd yn pwyso 1 pwys ac 1 owns. Fe'i tyfwyd gan Emlyn Hughes, Bethlyn, Bethel. Hoffai wybod a ellir ei churo.




AR GYFER Y NADOLIG......

Teganau

Teganau

Teganau

YN SIOP

E.WILSON HUGHES

84 Stryd Fawr

LLANBERIS

FFÔN 491

# LLANBERIS



*Côr Penrhyn gyda'u harweinydd, Mr. Roland Wyn Jones, B.A., Bangor, a'u horganydd, Mr. James Griffith yn nathliadau daucanmlwyddiant Capel Coch.*



*Mr. Tom Owen Thomas a Mrs. Margaret Jane Morris, Llanberis, ar achlysur eu priodas. Llun B. Parry.*

**TARGED o £3,750** – Y mae apêl wedi dod i'r pentrefi i godi £3,750 at Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon 1979. Mewn cyfarfod a gynhaliwyd yn Ysgol Dolbadarn ar Hydref 14eg, trefnwyd pwyllgor i drefnu gweithgareddau i godi arian. Etholwyd y swyddogion canlynol: Cadeirydd: Mr. Gwynfor Williams; Is-gadeirydd: Mr. John Williams; Ysgrifennydd: Miss Jane Morris; Is-ysgrifennydd: Mrs. Siân Thomas; Trysorydd: Mr. J.S.Thomas. Hyderwn yn fawr y cawn gefnogaeth y pentref i gyrraedd y targed uchel yma. Bydd y cyfarfod nesaf nos Fercher, Tachwedd 2 yn yr Ysgol am 7 o'r gloch, pryd y disgwylir cwmni dau gynrychiolydd o bob mudiad yn y pentref ynghyd â charedigion yr Eisteddfod Genedlaethol.

**LLWYDDIANT** – Mewn cystadleuaeth dalentau yng Nghanolfan Tanybont, nos Fercher, Hydref 12, yr enillwyr oedd Bert Parry, Llys Orwig ac Ann Pritchard, Madryn. Rhoddwyd datganiad ganddynt o ganeuon gwerin Sbaen, a cherddoriaeth glasurol ar ddwy gitâr. Fe'u gwobrwywyd y nos Wener ddilynol yn Nhanybont pan gyflwynodd Margaret Williams, y gantores enwog o Frynsiencyn, hanner canpunt iddynt.

**DIOLCH** – Dymuna Mr. a Mrs. Peter Rainbow, 15 Stryd yr Wyddfa, ddiolch i'w perthnasau, ffrindiau a chymdogion am yr anrhegion a dderbyniasant ar achlysur eu priodas yn ddiweddar.

**GWELLA** – Da gennym ddeall fod Mrs E.M.Williams, Stryd Newton, yn gwella ar ôl triniaeth yn Ysbyty Dewi Sant, Bangor. Hefyd Mr Eurwyn Jones, Tawelan, sydd gartref ar ôl triniaeth yn ysbytai Môn ac Arfon a Minffordd, Bangor. Hefyd Mrs K. Williams, Derwen Deg, hithau gartref ar ôl ysbaid yn Ysbyty Minffordd.

**CROESO** – Croeso adref i Mrs Ceridwen Glyn Jones a'i merch fach Ffion, gynt o Bryn Eryri, Stryd Warden, ar eu gwyliau o Ganada.

**LLONGYFARCHION** – Llongyfarchiadau i Mr Geraint Jones, 40 Afon Terrace, ar gael ei ddewis yn gadet ambiwlans gyda'r Gwasanaeth Ambiwlans Metropolitan ym Manceinion. Bydd Geraint yn dilyn cwrs tair blynedd mewn coleg arbennig ym Manceinion.

**CYDYMDEIMLAD** – Cydymdeimlwn â Dr. Vyrnwy Jones, Maesteg, ar farwolaeth ei chwaer yn Nyfnaint.

**PRIODAS** – Yng Nghapel Sardis, Dinorwig, priodwyd Maldwyn Owen Jones, mab Mr a Mrs R. Jones, 30 Maes Padarn, ac Elenyd Parry Jones, merch Mr a Mrs R.G.Jones, Tan y Buarth Uchaf, Dinorwig. Mae'r pâr ieuanc wedi ymgartrefu yn Llanberis. Dymunwn bob hapusrwydd i'r ddau yn y dyfodol.

**PRIODAS** – Yng Nghaernarfon yn ddiweddar priodwyd Mr Tom Owen Thomas, Fflat 74, Maes Padarn, a Mrs Margaret Jane Morris, Fflat 76, Maes Padarn. Dymunwn fywyd priodasol hapus iawn i Mr a Mrs Thomas.

**MARWOLAETH** – Ar Fedi 29ain, yn dawel ym Mhlas Pengwaith, bu farw Mrs Ann Jones (gynt o 47, Dôl Elidir). Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'i meibion a'u teuluoedd.

**YN YR YSBYTY** – Dymunwn wellhad buan i Mrs Buddug Wakeham, Stryd Newton, sydd yn Ysbyty Dewi Sant, Bangor.

**DIOLCHGARWCH** – Bore Llun Diolchgarwch, yng Nghapel Nant Padarn, bu plant yr Ysgol Sul yn cymryd rhan mewn gwasanaeth arbennig. Da oedd gweld pob plentyn bach a mawr yn rhoi ei bwt bach ei hun. Dymuna'r gynulleidfa ddiolch i'r arolygwr a'r athrawon Ysgol Sul am eu gweithgarwch efo'r plant. Dosbarthwyd rhoddion y plant gan yr arolygwr i Gartref Pengwaith.

**CAPEL COCH** – Yn ystod y mis bu Capel Coch yn dathlu dauganmlwyddiant yr Achos, ac yr oedd yr holl gyfarfodydd arbennig yn llwyddiannus iawn.

Agorwyd y dathlu gyda the parti i blant yr Ysgol Sul, wedi ei drefnu a'i ddarparu gan famau ifanc yr eglwys. Yn ystod y Sul gwasanaethwyd gan y Parchedigion J. Alwyn Parry a John Owen, a gweinyddwyd y Cymundeb yn oedfa'r nos.

Dydd Llun, sef Llun Diolchgarwch, cafwyd cyfarfodydd gweddi llwyddiannus, gyda'r plant o eglwysi Gorffwysfa, Preswylfa a Chapel Coch yn cyfrannu yn eu ffordd syml eu hunain. Daethpwyd â thoreth o ffrwythau a llysiau i'r cyfarfod ganddynt. Diweddwyd y cyfarfod a phererindod i Lwyn Celyn dan arweiniad y Parch. John Owen. Nos Fawrth, bu cyfarfod dathlu pryd y daeth cynulleidfa enfawr ynghyd. Cymerwyd rhan gan Y Parch. John Owen, Mr J. Gwynedd Jones, Y Parch. Gwyn Madoc Jones, Y Parch. W.O.Roberts, Y Parch. J. Alwyn Parry, Y Parch. J.S.Roberts, Mr R.E.Jones, Mr T.H.Jones a Mr Gwilym Charles Williams. Rhoddwyd y Fendith ar y diwedd gan y Parch. H.J.Hughes, Jerusalem, a'r organydd oedd Mr Huw Peris Pritchard. Darparwyd lluniaeth i bawb o'r ymwelwyr gan chwiorydd yr eglwys.

Nos Fercher, pregethwyd gan y Parch. Meirion Lloyd Davies, Pwllheli.

Diweddwyd yr wythnos ddathlu gyda Chymanfa Ganu dan arweiniad Mr Roland Wyn Jones, B.A., Bangor, gyda Chôr Penrhyn a'u horganydd Mr James Griffith.

**EISTEDDFOD EGLWYSI ST. PERIS A ST. PADARN** – Cynhelir yr Eisteddfod yn Neuadd yr Eglwys nos Wener, Rhagfyr 2. Y beirniaid fydd: Cerdd – Y Parch. Gwynfor Williams, Llanrug; Adrodd – Y Parch. D. Wynne Edwards, Llanllechid. Arholiadau – Y Parch. Jeffrey Hughes, Caernarfon.

**DIOLCHGARWCH EGLWYS ST. PADARN** – Y pregethwyr arbennig yng ngwasanaeth Diolchgarwch Eglwys St. Padarn oedd y Parch. Geraint Edwards, Penisarwaun, Y Parch. T.O. Williams, Cricieth a'r Parch. F.M. Jones, Llanbedrog.

**UNDEB Y MAMAU** – Yng nghyfarfod Hydref cafwyd anerchiad gan y Parch. Cyril Wheldon Griffiths, gynt o Lanuwchllyn a Llanfwrog.

**CYDYMDEIMLO** – Cydymdeimlwn â Mrs Phyllis Roberts, 35 Maes Padarn, ar farwolaeth ei brawd yn Birmingham.

**UN AR HUGAIN OED** – Llongyfarchiadau i Gwilym Evans, Siop Anrhegion. Bydd yn 21ain ar Dachwedd 20fed.

**'LEAGUE OF PITY'** – Bu plant Llanberis yn brysur yn ystod tymor yr haf yn cadw stondinau. Trwy eu hymdrechion, llwyddasant i godi dros £90 yn eu blychau wy. Dymuna Mrs Mari Evans a Mrs Beti Williams ddiolch o galon iddynt am eu parodrwydd a'u hymroddiad.

**DISCO** – Cynhaliwyd Disco i'r plant iau yn y Ganolfan yn ddiweddar. Rhoddwyd yr elw o £10 i brynu recordiau Cymraeg i drigolion Plas Pengwaith.

**PLAID CYMRU** – "Nid cynnig budd-dâl ychwanegol i'r di-waith oedd yr ateb gorau i argyfwng diweithdra Cymru, ond darparu mwy o waith parhaol yn yr ardaloedd gwledig". Dyna ddywed y gangen mewn llythyr at y Prif Weinidog. Maent yn gwneud hyn fel rhan o ymgyrch y Blaid i berswadio'r llywodraeth i ddod a mwy o waith i Gymru. Byddant yn anfon cynrychiolwyr i orymdeithio mewn protest diweithdra yng Nghaernarfon, Sadwrn, Tachwedd 19eg.


DEWCH I

SIOP THOMAS PRITCHARD

*IRONMONGER*

BIRMINGHAM HOUSE
LLANBERIS
Ffôn: 206

AM NWYDDAU A CHELFI O BOB MATH I'R CARTREF

OLL AM BRISIAU RHAD!

BARGEINION TOPDEC
bob mis



SIALENS!

Cyflwyno, trwy gymorth sleidiau, tapiau neu gyfrwng arall, unrhyw lenor o'ch sir

** Ydych chi'n aelodau o Glwb Ieuenctid, o Aelwyd, o Glwb Ffermwyr Ieuainc?

** Oes 'na 3 – 6 ohonoch chi?

** Wyddoch chi rywbeth am unrhyw lenor o'ch sir?

Os felly, dylech ymateb i her tîm o Ffermwyr Ieuainc Maesywaen, Meirion!

Nhw enillodd y Tlysau y llynedd

Pwy sy'n mynd i'w hennill eleni?

Trefnir y gystadleuaeth gan y Cyngor Llyfrau Cymraeg, Sgwâr y Frenhines, Aberystwyth (4151)



Gwesty Dolbadarn

Tŷ Rhydd-Feddiant

Llanberis

FFÔN : LLANBERIS 277

Perchennog Aneuryn Jones

MAN DELFRYDOL I BARTI PRIODAS
NEU GINIO BLYNYDDOL



Hefyd
CANOLFAN DRECIO
Holwch am ein
telerau rhesymol

# COFIO HOGIA'R BÊL

TYDIO'N rhyfedd fel mae'r hen luniau yma yn dwyn ymateb. Fe gofiwch inni ddangos lluniau hen dimau pêl-droed yr ardal yn y rhifyn diwethaf a gadael un llun heb yr enwau. Cawsom gymaint o lythyrau a sgyrsiau ar y ffôn fel ei bod yn amhosibl enwi pawb a roddodd y golygydd ar ben ffordd ynglŷn â llun tîm Glasgoed yn y flwyddyn 1909–10. Dyma'r rhestr, felly tynnwch rifyn Hydref allan a throwch i'r dudalen ganol.

Morris Roberts a Willie John Parry heb ddillad pêl-droed yn sefyll ar yr ochrau. Yn sefyll Hughie Jones, John Pritchard, Hughie Parry, Willie J. Green, David Simon Jones. Yn y canol: Llew Madog Jones, Hugh P. Williams, Griffith Rowlands, Harry Evans, Daniel Evans. Y ddau sy'n eistedd: Robert Jones a William Pritchard,Cae Glas. Y gwpan a enillwyd oedd y 'North Wales Junior Cup'. 'Roeddynt i gyd o Gwm-y-glo ond Llew Madog Jones a Wil Cae Glas.

Mae pawb yn unfryd y byddai'r rhain wedi curo'r Alban yn Anfield yn ystod y mis.

*Dyma i chwi lun arall o dîm Glasgoed yn y flwyddyn 1928–9. Y llun yma trwy garedigrwydd Mr. Owen Thomas, Penisarwaun.*



TÎM GLASGOED 1928–9

*Chwith i'r dde yn sefyll: Gwilym Price, Thomas Parry, Cadwaladr Roberts, John Hughes, Owen Thomas. Yn eistedd: Emyr Williams, Gwilym Ty'n Alice, Ted, Tŷ Gwyn. Yn eistedd ar y llawr: Wil Huw, Llanrug, Buckley Parry, Elwyn Jones, Richard Evan, Caer Corniog. Ni wyddys enw'r ola. Oes rhywun yn gwybod?*




*Llun diddorol gan Mr. Griff Roberts, Llanrug o gêm rhwng Llanberis a Chaernarfon ar Chwefror 11ed 1911 ar gae'r Oval. Oes rhywun yn cofio'r sgôr?*

*Dyma enwau tîm pêl-droed Dinorwig 1912–13 a ymddangosodd yn Rhifyn Medi. Cafodd Mr. Goronwy Lewis, Llanberis y wybodaeth oddi wrth ei fam.*

*Yn sefyll o'r chwith i'r dde: Will Seth Jones, Ty'n Fawnog Uchaf, Hugh Lewis, Garreg Lydan; William Evans, Tan Clogwyn; Evan Jones, Pen Dyffryn; Hugh Davies, Ty'n Fawnog; Hugh Parry, Tan Bwlch; Canol: Evan Griffiths, Foel; Wili a Tomi Roberts, Bryn Sardis; William Harri Williams, Llidiart Clo; Hugh Owen Jones, Ty'n Bont; Gwaelod: John Edwards, Terfyn; Arthur Roberts, Bryn Sardis; Twm Jones, Chwarel Fawr a Tomi Jones (Rali) Tan Marian,i gyd o Ddinorwig.*

# O GABAN

## 'Canodd yn y cô



*Llun o Gôr Meibion Chwarel Dinorwig yn 1950. Yr arweinydd yw Mr. Peleg Will ar y llun yma. Mae yna sawl wyneb cyfarwydd yn hwn. Ein diolch i Mr. R. Hughe*



*Cyfarfod Ffarwelio â Thomas John Roberts, Rhys Jones ac Owen John Griffiths ar achlysur eu hymadawiad am yr America mis Medi 1907, yn Sinc Bach Braich. Y llun trwy garedigrwydd Mrs. Enid M. Williams, Stryd Newton, Llanberis.*



*Mae'r llun yma trwy garedigrwydd Mr. W.A. Williams, Llanberis o Chwarelwyr Pen Giarat tua'r flwyddyn 1924. Hoffem gael gwybodaeth am y llun yma hefyd.*

## PENILLION CHWAREL

### BYWYD Y CHWARELWR

Amser bregus y gorffennol
Rhoddodd friw ar aml frawd,
Wedi rhoi ei oes i weithio
Am rhyw gyflog tlodaidd iawn.

Llawer ffrind sydd heddiw'n gorffwys
Yn nyfnderau'r ddaear fras,
Eu hysgyfaint wedi llanw
Hefo llwch y garreg las.

Ni wnaeth rhain ond ein rhagflaenu
Rhaid i ninnau hefyd fynd,
Heriwn angau gyda'i gleddyf,
Ond cael Iesu Grist yn ffrind.

W.A. Williams
11 Water Street Llanberis.

Trwy law Mr. Idwal Roberts, Stryd Newton, ef wedi eu cael gan Huw, mab y diweddar John Evans, Pant-y-buarth.

### YR IÂR A'R CRYS

Mae llawer math o ffeiriau
Ar hyd a lled y byd,
Rhai bychain a rhai mawrion
Rhai rhad a rhai go ddrud
Mae'r gallu i fargeinio
Yn gryf mewn ambell ddyn
Ba waeth beth ydyw lliw y croen
Boed felyn, du, neu wyn.

Ymhlith hen hogiau'r chwarel
Mae ambell Jew dan gamp
Mwy hir ei ben na'r dynion du
A ddaw i'n gwlad ar dramp
Un felly yw John Evans o Bant y Buarth draw
A mawr yw'r sôn am fargen fawr
A gafodd yr hen law.

Daeth un o'r brodyr duon
Fel Pacman drwy y fro
Fe synnwyd at y crandrwydd
Oedd yn ei 'suit-case', O!
Amrywiaeth o sidanau
A chrysau 'Nylon' drud
Mohamed yn ei 'hwrjio'

# Y CHWAREL

## a gadd y wobr'



ns a'r cyfeilydd Mr. W. Huxley Thomas. Tynnwch eich sbectols allan a syllwch Stryd Siarlot, Llanberis am y llun.



*Llun arall o eiddo Mrs. Enid M. Williams, Llanberis. A oes rhywun yn gwybod pwy yw'r dynion yn y llun a pha bryd ac ymhle y'i tynnwyd. Gwyddom fod Mr. Richard Jones a Mr. Brwynog Jones yn y llun.*



*Llun a gyflwynwyd i'r Eco gan Mrs Sarah Prosser, Bedlinog. Yn y llun fe wyddys pwy yw rhai: Idris Owen(?), Tom Roberts, Bodafon, Huw Tŷ 'Rardd, William Hughes.*

Ond John yn dal yn fud
Er cymaint oedd ei awydd
Am grys yr Indiad cu.

Nid oedd y pwrs yn caniatáu
'Roedd pethau yn bur ddu,
Ond buan gwelodd gynllun
Hen ddawn y melfaréd
'Roedd ganddo ef dda pluog
O 'frid' Rhode Island Red',
A dyma hwyl bargeinio
Am dderyn yn lle crys
Mohamed ddu yn 'diawlio'
A Siôn yn goch gan chwys.

Ni ddaeth y 'racial problem'
I galon 'run o'r ddau,
Cadd John ei grys o 'Nylon'
A'r 'suit-case' wedi ei gau,
Ac yntau 'rhen Fohamed,
Cadd ffowlyn at y Sul
A dyma'r ffordd mewn byd fel hwn
I gadw'r llwybr cul.


John Evans, Clwt-y-Bont.


# O LANBÊR I MEMPHIS

YN YSTOD y mis aeth dau o hogia Llanberis yr holl ffordd i Memphis, Tenesee, U.D.A., i weld cartref a man gorffwys y diweddar Elvis Presley. Syfrdanwyd y byd ychydig fisoedd yn ôl gyda'r newyddion am farwolaeth y canwr poblogaidd o Memphis a phenderfynodd Vivian Williams (gitarydd Hogia'r Wyddfa) a'i ffrind Thomas Toleman y byddent yn ymweld â'r lle wrth deithio i lawr i Florida am dair wythnos o wyliau.



*Man gorffwys Elvis Presley. Rhoddwyd ei weddillion i orffwys ger y ffenestr fechan ar y dde.*





*Vivian a Twm y tu allan i dŷ Elvis Presley. Addurnwyd y gatiau â nodau un o'i ganeuon poblogaidd. Ymwelodd y ddau â chartrefi cantorion enwog eraill yn Nashville megis Johnny Cash.*

### GWAITH TWM EBAN, STABLA

Ynglŷn â'r llythyr o Awstralia yn holi am waith Twm Eban, Stabla: Derbyniwyd y penillion hyn o'i waith ar achlysur cau Chwarel Dinorwig, gan Mrs. C.E. Roberts, Llanrug.

### CAU CHWAREL DINORWIG

Newydd trist i'r hen chwarelwyr,
Ddaeth i'r chwarel fore Llun;
Rhybudd pendant o'r brif swyddfa –
"Clirio'r arfau bob yr un."
Am flynyddoedd bu yr arfau
Yn malurio calon craig
Heddiw rhybudd sydd yn dryllio
Calon llawer gŵr a gwraig.

Pruddaidd ydoedd llawer wyneb,
Dan eu baich o arfau praff;
Cyllyll cerrig, cynion manhollt,
Gordd a thrafal, rhys a rhaff;
Priciau mesur, rhawiau rhiglo,
Neb yn gadael arf ar ôl;
"Dim eu hangen eto," meddynt,
Tra 'Pandora' ar y dôl.


# Cefnogwch ein Hysbysebwyr


Nef yn unig sydd yn gwybod
Beth fydd lliwiau map y byd,
Pan ddaw'r dydd bydd eto alw
Am yr arfau'n ôl i gyd;
Faint o'r hen chwarelwyr, tybed,
Glyw y rhybudd y pryd hwn?
Faint ohonynt fydd yn aros
Eto'n gryf i gario'r pwn?

Iôr ein Nêr a roddo derfyn
Ar ynfydrwydd duwiau'r gad,
Ar eu spri ar ddynol waed.
Dyna'r dydd y bydd gorfoledd,
Dyna ddwg y byd yn ôl;
Dyna'r dydd y bydd 'Pandora'
Wedi gorffen ar y dôl.

*Stabla.* *T. Williams*

*'Pandora' – y prif ager-beiriant.*

# YM MYD MODURO



GYDA dyfodiad tywydd oerach, mae'n amser llenwi'r system oeri a gwrth-rewydd (anti-freeze). Os gwyddoch am well term – gadwch i mi wybod.

Pan fo'r peiriant yn oer, tynnwch gap y radiator ac agorwch y tapiau i'w wagio. Archwiliwch gyflwr y pibellau a'r clipiau, er diogelu na fydd gollwng.

Wedi cau'r tapiau'n ôl, llenwch y radiator gyda gwrth-rewydd, ail osodwch y cap, a thaniwch y peiriant er ail sicrhau nad oes ddiferion, ac hefyd rhwystro aer i aros yn y system. Oeri'r peiriant eto, a gofalu fod lefel y gwrth-rewydd yn iawn. Mae'n bwysig defnyddio y mesur a'r math o wrth-rewydd a gymeradwyir i'ch modur chi.

# DEINIOLEN

**APÊL GWAUN GYNFI** – Mewn cyfarfod diweddar o Bwyllgor Apêl Gwaun Gynfi, adroddwyd bod addewidion am dros £600 wedi eu derbyn tuag at ymdrech y pentref i gyrraedd y targed o £2,900 at Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon a'r Cylch. Eisoes derbyniwyd rhagor na hanner y symiau a addawyd, ac mae'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi'r croeso brwd a dderbyniwyd gan y casglyddion ar eu hymweliadau â chartrefi'r pentref.

**SEFYDLIAD Y MERCHED** – Nos Lun, Hydref 3, cafodd y Sefydliad noson ddiddorol o dan lywyddiaeth Mrs M.A.Thomas. Cafwyd rhaglen arbennig, sef "Tra bo Dau" gan Maureen Rhys a John Ogwen. Roedd y cyfan yn hollol newydd, a chyda dau mor dalentog yn cymryd rhan cafwyd noson arbennig iawn. Diolchwyd iddynt gan Mrs Nancy Rowlands ac ategwyd yn gynnes iawn gan y llywydd.

Nos Iau, Hydref 13eg, cymerodd parti o'r Sefydliad ran mewn Noson Lawen a gynhaliwyd gan Grŵp Gwyrfai o Sefydliad y Merched yn Ysgol Brynrefail, Llanrug. Cafwyd noson hwyliog iawn yno.

**CANOLFAN GYMDEITHASOL** – Bydd y pentrefwyr yn falch o wybod fod trefniadau yn mynd rhagddynt i sefydlu Canolfan Gymdeithasol yn seler Ysgol Gwaun Gynfi, fel rhan gyntaf darpariaeth mwy eang gan y Cyngor Sir ar gyfer y pentref. Eisoes cafwyd caniatad cynllunio i'r gwaith o addasu'r seler, a chychwynnir arno cyn Mawrth 31ain, 1978. Y mae ym mwriad Pwyllgor Cronfa'r Neuadd Bentref i alw Cyfarfod Cyhoeddus yn y pentref i roi adroddiad ar y sefyllfa cyn gynted ag y bydd yn briodol i wneud hynny. Rhagwelir y bydd ail ran y datblygiad – trwy ymgynghoriad â'r pentrefwyr – yn golygu ychwanegiad at adeilad yr Ysgol, i gynnwys Neuadd Chwaraeon.

**CYNGOR EGLWYSI DEINIOLEN** – Yng nghyfarfod y Cyngor, nos Lun, Hydref 3ydd, cytunwyd gyda gofid i dderbyn ymddiswyddiad Miss Elizabeth E. Griffith (Cefnywaun) o'i swydd fel Ysgrifennydd y Cyngor. Talwyd diolch gan y Llywydd, Mr Donald Jones, i Miss Griffith am ei gwasanaeth gloyw tra yn y swydd, gan werthfawrogi ei hymroddiad a'i chymwynasau yn y gorffennol. Etholwyd Mr Eddie Wyn Lewis (Cefnywaun) yn olynydd i Miss Griffith, a dymunwyd yn dda iddo yn y gwaith.

**TÂN YN 46, PENTRE HELEN** – Bore Llun, Hydref 10fed, difrodwyd cartref Mrs Mattie Williams, 46 Pentre Helen, gan dân a gychwynnwyd pan neidiodd gwreichionen o dân trydan i gadair yn yr ystafell fyw. Cyfyngwyd ar y difrod trwy ymyrraeth sydyn rhai adeiladwyr oedd yn gweithio ar y stad, a bu'n rhaid cael aelodau'r Frigâd Dân ym Mangor a Chaernarfon i ddiffodd y tân. Estynnir cydymdeimlad â'r teulu yn yr amgylchiad anffodus hwn, sydd wedi gorfodi Mrs Williams a'i meibion i symud, tros dro, o'u cartref i aros gyda'i merch yng Ngalltyfoel.

**Nos Fercher, Hydref 19eg, penderfynwyd mewn pwyllgor a gynhaliwyd dan nawdd Cyngor Eglwysi'r pentref i drefnu bod cynrychiolwyr yn bresennol yn y Llyfrgell o 2.00 p.m. hyd 4.00 p.m. ac o 6.00 p.m. hyd 8.00 p.m., ddydd Llun, Mawrth a Mercher, Hydref 31 – Tachwedd 2 i dderbyn rhoddion ariannol ar ran Mrs Williams. Er hwylustod i drigolion Clwtybont, derbynnir rhoddion yn ogystal yn Festri Libanus o 7.00 p.m. hyd 9.00 p.m., nos Fercher, Tachwedd 2.**

**Mae traddodiad elusennol yn Neiniolen, ac mae'r Cyngor yn hyderus y ceir ymateb hael eto yn yr achos teilwng hwn.**

**'DECHRAU CANU, DECHRAU CANMOL'** – Recordiwyd oedfa ar gyfer teledu rhaglen yn y gyfres 'Dechrau Canu, Dechrau Canmol' yng Nghapel Ebenezer nos Fawrth, Hydref 25ain. Daeth cynulliad lluosog i'r oedfa a chyfrannwyd eitemau gan blant Ysgol Gwaun Gynfi, Seindorf y pentref a Chor Caernarfon. Cyflwynwyd yr eitemau gan Mr. R.O.G. Williams. Yr arweinydd oedd Mr. Bill Evans a'r organydd oedd Mr. Goronwy Jones. Cyhoeddwyd y Fendith gan y Parch. Eryl L. Davies.

**MERCHED Y WAWR**– Nos Lun, Medi 19 cafwyd cychwyn da i dymor newydd cangen Deiniolen, gyda Mrs Helen Sutherland yn y gadair. Cyflwynwyd darlith ddiddorol gan Miss Mat Pritchard, B.A. ar ddau gymeriad hynod o'r ganrif ddiwethaf, sef Thomas Williams, Capelulo a Robert Jones, Llanllyfni. Nos Iau, Hydref 6ed aeth nifer o'r aelodau i Theatr Gwynedd a mwynhau'r ddrama 'Drws Priodas', gan Mr Griff Parry. Mrs Valmai Williams oedd yn gyfrifol am y trefniadau.

Nos Fawrth, Hydref 11eg, cynhaliwyd cyfarfod misol o'r gangen gyda Mrs H. Sutherland yn llywyddu. Rhoddwyd croeso cynnes i amryw o aelodau newydd ac hefyd i Mrs Eirlys Hughes a'i chydymaith yn cynrychioli MANWEB. Cafwyd arddangosfa ar goginio swperau blasus a melysion. Edmygwyd y peiriant coginio newydd gan yr aelodau. Rafflwyd y bwydydd a baratowyd, a'r enillwyr oeddynt, Mrs O. Lewis, Mrs Nellie Hughes, Miss Eleanor Jones, Mrs Eirlys Williams, Mrs Ellen Williams, Mrs N.V. Pritchard, Mrs Marian W. Williams, Mrs M.Thomas a Miss Nansi Owen. Y gwestwragedd oedd Miss Eleanor Jones, Mrs E.Williams, Mrs K.Jones a Miss Priscie Roberts gyda Mrs M. Thomas a Mrs G.Jones yn eu cynorthwyo.

Rhoddwyd y raffl gan Miss Eleanor Jones, a'r enillydd oedd Mrs H.Jones, 4 Pentre Helen. Diolchodd Mrs Dilys Hughes a Miss Kathleen Jones i gynrychiolwyr y MANWEB, a thalwyd diolchiadau i'r gwestwragedd gan Mrs H.Sutherland.

Yn y cyfarfod nesaf ar Dachwedd 21 disgwylir Miss Eleanor Jones i roi sgwrs ar rai o'i theithiau.

**PLAID CYMRU** – Cynhelir Ffair Gaeaf yn Ysgol Gwaun Gynfi nos Wener, Tachwedd 4ydd am 7 o'r gloch. Mynediad: 10c (oedolion); 5c (plant).

Nos Sadwrn, Rhagfyr 10fed cynhelir Cinio Nadolig yng Ngwesty Dolbadarn, Llanberis. Ceir mwy o fanylion ynghylch y cinio yn rhifyn Rhagfyr o Eco'r Wyddfa.

**DIOLCH** – *'A gaf fi eto drwy gyfrwng Eco'r Wyddfa ddiolch i bawb a fu'n ymweld â mi tra yn Ysbyty Bryn Seiont, ac am y cardiau a'r llythyrau a'r rhoddion a dderbyniais. Derbynied pawb fy niolchgarwch, a hefyd y meddygon a'r gweinyddesau ym Mryn Seiont am y caredigrwydd a phopeth a dderbyniais tra'n aros yno.*

*H.E.Pritchard.*

**GOHEBYDD NEWYDD** – Gohebydd newydd Deiniolen a'r cylch o hyn allan fydd Mr. Gwyndaf Pierce Roberts, Swn yr Awel, Porth Gogledd, Deiniolen. Estynnwn groeso gwresog iddo i blith gweithwyr yr 'Eco', gan obeithio y caiff bleser a mwynhad allan o'r gwaith.

**DIOLCH** – Mae'n anodd gwybod sut i ddiolch i gyn-ohebydd yr 'Eco' yn Neiniolen, sef Mr Robert Williams, Tai Caradog. 'Roedd Bob yn un o sefydlwyr yr 'Eco' ac fe gymerodd y baich trwm o hel a chasglu, golygu a chywiro deunydd argraffu Deiniolen a'r cylch. Daeth pob un o'i gydweithwyr i'w edmygu'n fawr ac i barchu a gwerthfawrogi ei safbwyntiau a'i ddoethineb. Ar ran gweithwyr yr 'Eco' ac ar ran y fro, 'Diolch Bob am bopeth'

– *Gol.*

**COLLED** – Trist oedd clywed am farwolaeth Mr. Erasmus Williams, 5 Rhes Glandwr, Clwt-y-bont (gynt o Bontrhythallt). Ein cydymdeimlad â'r teulu oll yn eu profedigaeth.



*Llun yw hwn o gwmni drama Eglwys Disgwylfa, yn y flwyddyn 1921. 'Aelwyd Angharad' oedd enw'r ddrama. O'r holl griw 'does ond pedwar yn fyw heddiw, sef Miss Nell Owen, Macpelah House, Mrs. J.W. Jones, Rhianfryn, Mrs. Evie Williams, a Miss Olwen Owen pryd hynny, ond sy'n awr yn byw ym Mrynsiencyn. Y Parch. William Griffydd oedd y Gweinidog sy'n eistedd yn y canol. 'Roedd ei wraig yn y cwmni hefyd. Y llun trwy garedigrwydd Mr. Hugh Emyr Pritchard.*

## Pwy yw'r trydydd?

Gofynnwyd am enw'r trydydd chwarelwr a oedd yn y llun dan y pennawd 'Y Chwarelwyr wrth eu Gwaith' yn rhifyn mis Hydref.

Yn ôl Mrs. Percy D. Williams, 7 Bryn Tirion, Penisarwaun, **mab Bwlch Cae Mawr** oedd y trydydd.

Diolch Mrs. Williams am y wybodaeth.

I OHEBWYR A CHYFRANWYR YR ECO RHIFYN RHAGFYR

Y cynnyrch i law'r Golygydd erbyn NOS FERCHER, TACHWEDD 23

Daw'r rhifyn nesaf allan ar RHAGFYR 1


**ECO'R WYDDFA TRWY'R POST**

*Cysylltwch â* Selwyn Williams, *(Trefnydd Gwerthiant)* Cartref, Stryd yr Orsaf, Llanrug. *Caernarfon 3577.*

**E& E.M.GREEN**

**SIOP GRON**

**PENISARWAUN**

**Nwyddau Groser Ffrwythau a Llysiau Ffres**

*Dewis rhagorol Croeso cartrefol*

**AM DRIP CYFFORDDUS, DIOGEL A RHAD I BLE BYNNAG Y BO ...............**

*Eric Morris*



**Bwsiau Arfon LLANRUG**

**FFÔN WAUNFAWR 254**

# Llannerch Y Llenor

gan SELWYN GRIFFITH



## "HAUL A GLAW A GWYNT"

**LLYTHYR Mrs. Helen Jones, Caernarfon yn y rhifyn diwethaf a'm harweiniodd at fy nhestun y tro hwn. Chwi gofiwch iddi sôn am y gerddorfa yng nghapel Bethel a dylanwad Rhys J. Huws ar y fro.**

Pentref anysbrydoledig yw Bethel, a dim yn digwydd yno, mae'n siŵr, ond haul a glaw a gwynt" – na, nid fi sy'n meiddio gwneud datganiad o'r fath, ond Alun Llywelyn Williams yn ei gyfrol gynhwysfawr "Crwydro Arfon".

Er mai rhuthro heibio i Fethel a wnaeth awdur "Crwydro Arfon", rhaid cytuno i raddau helaeth â'i ddatganiad, ond brysiaf i awgrymu, petai wedi oedi yn y pentref fel y gwnaeth tua Dinas Dinorwig a Llanddeiniolen a manteisio ar y pryd i gael sgwrs gydag ambell hen gymeriad o fro "Hen Atgofion", dichon y byddai yntau hefyd yr adeg honno wedi synhwyro peth o ramant y gorffennol, ac y byddai'n anodd iddo ddweud, neu o leiaf i gredu, nad oedd "dim yn digwydd yma."

O oedi tipyn tua Llanddiniolen a Dinas Dinorwig gwelodd Alun Llywelyn Williams wychder mawreddog Eryri, ac fe deimlodd ramant echdoe a doe, ond hen gaer y gorffennol yw Dinas Dinorwig wedi'r cyfan, a gardd o feini mud yw mynwent Llanddeiniolen. Mae ôl aberth y cyndadau er gwaetha' stormydd y blynyddoedd yn parhau i lechu yng nghilfachau'r fro o hyd.

### DIFATER

Mae ieuenctid Bethel heddiw yn hynod o ddifater ynglŷn â'u gorffennol, ac mae "plant doe" yn prinhau. Y "plant" a gofiai gerdded drwy "haul a glaw a gwynt" i gyfarfodydd a dosbarthiadau Rhys J. Huws, ac i dderbyn ganddo ysbrydoliaeth yr addysg newydd a fu'n gefn a sylfaen gadarn iddynt drwy gydol eu hoes.

Ydyn' – "ma' nhw wedi mynd" bron i gyd ac fe lenwid yr "hetar" â brics a mortar.

'Does 'na fawr wedi digwydd yma ar wahân i fildio, a "haul a glaw a gwynt" ac ambell angladd, ac mae sŵn yr atgofion a'r profiadau hynny a fu'n mynnu sobri dihitrwydd ein heddiw yn prysur ddistewi ac yn diflannu o'n clyw.

Ond wrth ddrachtio o win melys gorffennol, fe sylweddolwn i blant Bethel gael rhyw fendithion arbennig iawn tua dechrau'r ganrif 'ma, ac yn sicr ddigon nid pentref anysbrydoledig oedd Bethel y cyfnod hwnnw.

### DEFFRO MEDDYLIAU'R PLANT

Gyda dyfodiad Rhys J. Huws i'r ardal yn 1896 daeth rhyw heulwen danbaid ac addysg newydd i aeddfedu'r fro. Syrthiodd cawodydd bendithiol ei dalent ar eneidiau'r ardal, ac fe ddeffrowyd meddyliau'r plant a'r ieuenctid gan ei ddawn gyfareddol i symbylu brwdfrydedd tuag at addysg.

Dyma'r "haul a'r glaw a'r gwynt." a gynhyrfodd Fethel ar droad y ganrif, ac na feiddied neb ddweud am y dyddiau hynny mai "pentref anysbrydoledig" oedd Bethel.

Efallai y gellid honni mai yn y cyfnod arbennig hwn y plannwyd gwreiddyn y difrawder a deimlid yn ddiweddarach. Cofiaf i'r ddiweddar Ceridwen Gruffydd (chwaer y Dr. W.J. Gruffydd) awgrymu i mi unwaith mai canlyniad yr addysg a roddwyd gan Rhys J. Huws oedd "fod y goreuon yn addasu eu hunain i lenwi cylchoedd amlwg mewn rhannau eraill o'r wlad gan adael ardal Bethel yn brin o arweinyddion.

Beth bynnag am y ddadl yna, 'rwy'n berffaith sicr mai anfantais i mi a'm cyfoedion yw'r ffaith na chlywsom air am W.J. Gruffydd tra'n "A-Bi-Ecio'n" ffordd drwy Ysgol Bethel. 'Rwyf yr un mor sicr mai mantais difesur i blant cyfnod Rhys J. Huws oedd iddynt gael clywed a deall gweithiau Goronwy Owen, Dafydd ap Gwilym a Beirdd yr Uchelwyr, ac efallai'n fwy na hynny, medru dadansoddi cynghanedd ac ysgrifennu Cymraeg cadarn a chywir. Fel y dywedodd W.J. G. yn ei Hen Atgofion "I roddi peth help i'r genhedlaeth hon i sylweddoli campwaith R.J.H. mi ddywedaf hyn – "yr oeddynt yn gallu ysgrifennu gwychach a chadarnach Cymraeg nag ugeiniau o'r rhai sy'n cymryd Cymraeg fel cwrs terfynol ym Mhrifysgol Cymru. Beth na roddwn am gael rhai ohonynt yn fy nosbarthiadau uchaf."

Ac fel y gŵyr pawb nid gŵr a wasgarai glod oedd W.J. G., os nad oedd y clod hwnnw'n ddyledus.

Bwriadaf sôn fwy am Rhys J. Huws yn y dyfodol.

*Hwyl am y tro,*
*Selwyn*

## AR WERTH

Beic "chopper" mewn cyflwr da. £45. *Jones, Dwyros, Llanrug. Ffon: Caernarfon 3059.*

# BETWS GARMON

**PRIODAS** – Dymuniadau gorau i Mr. Dewi Morgan Jones, Tŷ Coch ar achlysur ei briodas â Miss Gwenda Hughes, Cae Gwyn, Caernarfon, yng Nghapel Seilo Caernarfon ddydd Sadwrn, Hydref 15.

**O'R YSBYTY** – Dymunir llwyr wellhad i Mr. Amos Jones, Bryn Afon ar ôl derbyn triniaeth lawfeddygol.

# TAN-Y-COED

**DIOLCHGARWCH** – Yng Nghapel Tan-y-Coed ddydd Llun Hydref 17 dathlwyd Dydd Diolch gyda Chyfarfod Gweddi yn y bore a Mrs. Megan Williams, Dwyfor, Mrs. Miriam Hughes, 'Rallt Deg a Mr. Glyn Owen, Llys Eryri yn gwasanaethu.

Trefnodd y gweinidog, y Parch. W.O. Roberts, raglen arbennig i blant yr Ysgol Sul ar gyfer y prynhawn. Rhoddodd y Parch. W.O. Roberts anerchiad i'r plant, a'r plant oedd yn gwasanaethu weddill y cyfarfod. Mrs. Beryl M. Jones oedd y cyfeilydd. Y plant a wasanaethai oedd Jonathan a Simon Williams, Sarah, Victoria a Paul de–Boo, Annwen, Wyn a Bethan Parry. Amlyn a Manon Lloyd Evans, Lona, Alwena a Glenda Roberts, Rebecca, Vaughan a Dafydd Hughes, Garry ac Enid Wynne, Carys Lloyd Jones, Richard Roberts, Mark Williams, Ffion John Williams a John Elwyn Jones.

Yn yr hwyr pregethwyd gan Y Parch. Trevor Jones, Caernarfon. Mrs. Violet Blanchard oedd y cyfeilydd y bore a'r hwyr.

Cafwyd cynulliad da yn yr holl oedfaon.

**COFION** – Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau da i Mr. Ifor Jones, Cartref, sydd yn Ysbyty Bryn Seiont.

# CEUNANT

**ADREF O'R YSBYTY** – Balch iawn oeddem o weld Mrs. P. Lloyd Jones, Hafod Owen, wedi dod adref o'r ysbyty. Dymunwn adferiad llwyr a buan iddi.


**CAPEL CEUNANT** – Cynhaliwyd oedfa o dddiolchgarwch yn y capel brynhawn Llun 17. Cafwyd pregeth gan y Parch. H. Jones Parry, Caernarfon.

# Y Gwir am Ddiweithdra

**MAE cangen Waunfawr o Blaid Cymru wedi danfon llythyr at y Prifweinidog a'r Ysgrifennydd Gwladol yn dweud mai anwiredd yw honni fod diweithdra yn broblem gyffredinol drwy wledydd Iwrob.**

Yng Ngwynedd mae diweithdra yn 12 y cant, ond yn y Swistir mae'n llai nag un y cant, ac yn Sweden ystyrir diweithdra o 1.4 y cant yn argyfwng cenedlaethol. Yn Seland Newydd hefyd mae'r cyfartaledd diweithdra yn is nag un y cant.

Maent wedi galw am bolisïau pendant, gan y Llywodraeth a'r Swyddfa Gymreig, i ddatrys diweithdra yng nghefn gwlad Cymru ar frys, am fod y sefyllfa yn ddifrifol.



## DRAENOG

DIGWYDD gweld yn y *Cymro* Hydref 15 yr ychydig sylwadau a ganlyn am *Eco'r Wyddfa:*

"Un o'r Papurau Bro mwyaf amrywiol ei gynnwys a gorau o ran diwyg ydi *Eco'r Wyddfa.* Sefydlwyd *Eco'r Wyddfa* ym mis Mawrth 1976. Mae'n cael ei gysodi, gan Wasg Gwynedd, Nant Peris. Diau mai dyma un o'r prif resymau am y wedd broffesiynol sydd arno. Mae hwn yn batrwm o bapur bro ar gyfer unrhyw un sydd am gychwyn papur o'r fath yn ei ardal".

Tydio'n braf clywed papur cenedlaethol yn canmol ymdrech papur bro deudwch?


# SIOP Y PENTAN

7 YR HEN FARCHNAD, STRYD Y PALAS

## CAERNARFON

CARDIAU RECORDIAU CASETIAU POSTERI A RWAN....

**LLYFRAU**

Yn eisiau: Llyfrau ail-law o bob math, yn enwedig llyfrau gan feirdd a llenorion sir Gaernarfon.

*Galwch heibio neu danfonwch air*

# WAUNFAWR

**CYNGOR CYMDEITHAS** – Cyfarfu'r cyngor yn y Bontnewydd nos Fawrth, Hydref 11, o dan lywyddiaeth Mr. Elwyn Roberts. Hysbysodd y Clarc, Mr. I. Gwynedd Williams, ei fod wedi derbyn llythyr ynglŷn â chael cae chwarae pêl-droed i'r pentref. Penderfynwyd anfon at y Cyngor Sir a'r Cyngor Dosbarth i weld a yw'n bosibl i'r tri chyngor rhyngddynt ddatrys y broblem.

Mynegwyd pryder yn y cyngor y gall parcio ceir yn agos i 'surgery' newydd Dr. Williams fod yn broblem arall anodd i'w datrys a phenderfynwyd holi a yw'n bosibl cael 'lay-by' gyferbyn â'r 'surgery'.

**CLWB GWYRFAI** – Dechreuodd y clwb ar waith y tymor hwn yn Neuadd yr Eglwys, ddydd Iau, Hydref 6, o dan lywyddiaeth y Ficer, y Parch. E. Trefor Jones. Cafwyd adroddiadau gan y llywydd, yr ysgrifennydd a'r trysorydd a chadarnhawyd y trefniadau a wnaed ar gyfer y tymor. Ar ôl y cyfarfod aeth yr aelodau i Feddgelert ar wahoddiad Mr. a Mrs. A.E. Rowley, Haul-a-Gwynt, a chawsant wledd werth ei chael ganddynt. Dyma'r drydedd flwyddyn yn olynol i Mr. a Mrs. Rowley roi gwledd fel hyn i aelodau'r clwb yn eu caffi ym Meddgelert a diolchodd y llywydd yn gynnes iddynt am eu caredigrwydd haelionus.

**CLWB Y MAMAU** – Bu Clwb y Mamau Beddgelert yn ymweld â Chlwb Waunfawr nos Iau, Hydref 13, a chafwyd noson lwyddiannus iawn gyda 'Quiz' o dan ofal Mr. R. Eaglestone. Ar ddiwedd y rhaglen cafwyd swper a chyflwynwyd anrheg i'r clwb. Diolchodd Mrs. Alice Johnstone, Tŷ Gwyn i Mr. Eaglestone ac i Glwb Beddgelert am eu anrheg. Croesawodd Mrs. R.A. Hughes, Tref Eilian aelodau newydd a dymuna'r pwyllgor roi croeso i unrhyw ferch o'r ardal sy'n dymuno ymaelodi eto. Bydd y cyfarfod nesaf yn yr Ysgol Gynradd am 7.30, Tachwedd 10.

**DOSBARTH Y MERCHED HEINI** – Y mae'r dosbarthiadau 'Keep Fit' wedi dechrau eleni eto. Fe'u cynhelir yn Neuadd yr Eglwys bob yn ail nos Fercher am 7.30, a bydd y dosbarth nesaf ar Hydref 26. Os am fwy o wybodaeth holer Mrs. Pat Parry, Ffridd Felan.

**YR EISTEDDFOD ARDAL** – Dylasai'r cystadlaethau hyn fod wedi eu cynnwys yn y rhaglen: (a) Canu Penillion dan 14 oed; (b) Adrodd i gyfeiliant unrhyw offeryn (agored).

Bu noson goffi yn Neuadd yr Eglwys (Hydref 7) i godi arian ar gyfer yr eisteddfod a gwnaed elw o £60.

**YR EISTEDDFOD GENEDLAETHOL** – Ym Mhwyllgor Lleol y Gronfa, o dan lywyddiaeth Mrs. K. Wyn Jones, Bron Eifion penderfynwyd cael Noson o Garolau yng Nghapel Croesywaun ar ôl yr oedfaon nos Sul, Rhagfyr 18, oni fyddai gan yr eglwysi wrthwynebiad, a gwneud casgliad gwyn ynddi.

Penderfynwyd hefyd anfon apêl am gyfraniadau i bob tŷ yn y pentref; gofynnwyd i'r swyddogion ei geirio a dewiswyd is-bwyllgor i drefnu dosbarthu'r llythyrau.

Cafwyd elw o £85 i'r noson goffi a gynhaliwyd yn Neuadd yr Eglwys, Hydref 14.

**SEFYDLIAD Y MERCHED** – Cafwyd noson ddiddorol iawn gyda Mrs. Elizabeth Lloyd, Dolgellau yn sôn am Hanes a Datblygiad Brodwaith. Llywyddwyd gan Mrs. H. Morfa Evans, Preswylfa.

Cynhelir cyfarfod blynyddol y gangen nos Iau, Tachwedd 3.

**MERCHED Y WAWR** – Mwynhawyd noson amrywiaethol yng nghwmni John Ogwen a Maureen Rhys y mis diwethaf. Diolchwyd iddynt gan Mrs. N. Miles. Llywyddwyd gan Mrs. Gillian Wyn. Mrs. Nellie Williams enillodd y raffl a roddwyd gan Mrs. M. Slaven a Mrs. W. Lloyd Jones.

Yn y cyfarfod nesaf, Hydref 27, bydd y gangen yn dathlu Calan Gaea' yng nghwmni'r Gwrachod. (Pawb i ddod â phowlen a llwy!)

**DIOLCHGARWCH** – Yn ôl eu harfer bu aelodau'r gwahanol eglwysi'n cynnal eu Gŵyl Ddiolchgarwch gyda phregethau, cyfarfodydd gweddïau a chyfarfodydd plant a phobl ifanc. Cafwyd cynulliadau da ac offrymau diolch sylweddol iawn.

**CYDYMDEIMLWN** – â Mr. Goronwy W. Jones, Treflys ar golli ei fam; a Mrs. Rosemary Bracegirdle, 23 Bro Waun ar golli ei mam, Mrs. M. Owen, 2 Bryn Golau gynt; â Mr. John Hughes a Mr. Edward Vaughan Hughes ar farwolaeth Mrs. Z.M. Hughes; â Mrs. Margaret Owen a phawb o deulu Bryn Gwylan a Mrs. Jane Owen, Glangors a'r teulu ar farwolaeth annisgwyl Mr. Richard Neville Owen.

Hefyd â Mrs. Kathleen Hughes, Llys Meredydd (colli brawd).

**O'R YSBYTY** – Croeso gartref i Nyrs Mair W. Williams, 17 Bro Waun; Miss Jennie Williams, Weriglodd Goch; Mrs. Helen Jones, 5 Dolerddi; Miss T. Parry, 7 Bryn Golau Boed iddynt wellhad buan.

**YN YR YSBYTY** – Dymunwn adferiad llwyr a buan i Mrs. Catherine Jones, Crud yr Awel.

**LLONGYFARCHIADAU** – i Mr. a Mrs. Keith A. Warburton, Hawarden (Miss Gwenda Jones, Tan-y-Waun gynt) ar eu priodas; i Ron Williams, 18 Bro Waun ar ei lwyddiant ym myd yr adar.

**DYMUNIADAU GORAU** – i Mr. Dafydd Glyn Williams, Coed Gwydryn yn y Banc yn Nolgellau.

**BEDYDD** – yng Nghapel Croesywaun: Kailey Marie, merch Mr. a Mrs. Roy Jones, Minffordd.


**YR URDD** – Ail-ddewiswyd swyddogion llynedd gyda'r ychwanegiadau hyn: Mrs. Olwen Williams, Llidiart Wen, Miss Marilyn Roberts, Bod Afon a Mrs. Rhian Jones, Tŷ Capel Bethel, a threfnwyd rhaglen waith y tymor.

**YR AELWYD** – Y mae'r Aelwyd wedi cychwyn ar waith y tymor ac yn cyfarfod yn Neuadd yr Eglwys am 7.30 ar nosweithiau Mawrth.

**Y GYMDEITHAS UNDEBOL** – Cyfarfod Agoriadol: Hydref 24, Darlith a Ffilm gan Mr. Hugh J. Hughes, Bethesda. Bydd yr ail gyfarfod – un amrywiaethol – ar Dachwedd 7, ac yng ngofal Mr. Robert Jones, Tan-y-Fron a Mr. Norman Williams, Llidiart Wen. Edrychir ymlaen at dymor llwyddiannus arall.

**PLAID CYMRU** – Dydd Iau Hydref 20ed yng Nghyfarfod Cyffredinol y Blaid dewiswyd y swyddogion a phenderfynwyd cael Ffair Nadolig yn Neuadd yr Eglwys ar Ragfyr 2ail.

**CLWB GWYRFAI** – Nos Iau Hydref 20ed cafwyd sgwrs ddifyr ar yr hen ddiwydiant gwlân yng Ngogledd Cymru gan Mr. Robert Williams, Bangor. Llywyddwyd gan Mr. W. Vaughan Jones a diolchwyd gan Mr. Idris Humphreys. Enillwyd y raffl a roddwyd gan Miss Oweilda Williams gan Dr. Miles.

## TAI NEWYDD AR WERTH YN LLANRUG

o wneuthuriad rhagorol gan adeiladwyr lleol. Stâd heb fod yn rhy fawr, yn agos i'r siopau, ysgolion a bysus. Yn mwynhau golygfeydd ardderchog tua'r Wyddfa ac yn llygad yr haul.

AIL GYFNOD : TAI PÂR ( SEMI - DETACHED ) GYDA GWRES CANOLOG NWY

**AR Y LLAWR**

Stafell Fyw, Stafell Fwyta
Cegin helaeth wedi'i dodrefnu,
Ail Dŷ Bach a Stafell Gotiau.

**I FYNY'R GRISIAU**

Tair llofft dda, Stafell 'Molchi,
Stôr, Cwpwrdd Sychu Dillad.

**TU ALLAN**

Gardd Fawr, Garej a Gweithdy cyfunol gyda dŵr a thrydan wedi'i cysylltu.

YR ADEILADWYR

**Seiont Construction**
MELIN SEIONT
**CAERNARFON**
FFÔN 2039

Y GWERTHWYR

**CHAS MEDFORTH & CO**
Y BONT BRIDD
CAERNARFON
FFÔN 2924 & 2989

# CWM-Y-GLO

**UNDEB Y MAMAU** – Cynhaliwyd cyfarfod mis Hydref yn yr Ysgol Gynradd o dan lywyddiaeth Mrs Williams, Y Rheithordy. Y Rheithor a arweiniai'r gwasanaeth. Y gŵr gwadd oedd y Parch Jeffrey Hughes, Curad Caernarfon. Rhoddodd hanes ei arhosiad yng Ngwlad Canan a dangosodd sleidiau lliw o'r lleoedd diddorol yno. Paratowyd te gan Mrs J.E.Watkins a Mrs Chick. Diolchwyd i'r gŵr gwadd gan y Rheithor ac i'r gwestwragedd gan Mrs H.Roberts, Bodgwynedd.

**GŴYL Y CYNHAEAF** – Cynhaliwyd Cyfarfod Diolchgarwch am y Cynhaeaf yn Eglwys Sant Gabriel ar Ddydd Sul a Dydd Llun, Hydref 16 a'r 17eg. Gweinyddwyd yr Offeren gan y Rheithor fore dydd Sul a rhoes anerchiad yng ngwasanaeth y plant brynhawn Sul. Cymerwyd rhan yn y gwasanaeth yma gan holl blant yr Ysgol Sul a chynorthwywyd hwy gan yr athrawon. Canwyd yr Organ gan Judith Orritt. Arweiniwyd gwasanaeth nos Sul gan y Rheithor a phregethwyd gan y Parch. E.T.Roberts, Ficer Sant Iago, Bangor. Y pregethwr gwadd yng ngwasanaeth nos Lun oedd y Parch. Ifan Williams, Rheithor Blaenau Ffestiniog. Canwyd yr organ yng ngwasanaethau'r ŵyl gan Miss Ceridwen Hughes. Fel arfer, yr oedd yr Eglwys wedi ei haddurno yn hardd dros ben.

**FFAIR Y CYNHAEAF** – Cynhaliwyd Ffair y Cynhaeaf yn yr Ysgol Gynradd nos Fawrth, 18fed o Hydref er budd Eglwys Sant Gabriel. Bu llwyddiant eithriadol ar y ffair eleni. Diolchwn i bawb am eu cefnogaeth ac i bawb a fu'n gweithio mor ddiwyd i wneud yr ymgyrch yn llwyddiant. Ein diolch hefyd i'r prifathro am ei barodrwydd i roi benthyg yr ysgol inni ac i staff y gegin am eu help.

**ENNILL CWPAN** – Ein llongyfarchion i Melfyn Roberts, Bod Gwynedd ar ei lwyddiant yn ennill cwpan am arddangos bwji mewn sioe yn Ynys Môn yn ddiweddar. Y mae Melfyn yn adnabyddus iawn i lawer yn y maes yma ac yn ennill llawer iawn o anrhydeddau.

**CROESO** – Pleser yw estyn croeso i Mrs Annie Griffiths, Abergele (Pen Gwaith Clegir gynt) yn ôl i'r Cwm eto. Bydd yn treulio'r gaeaf gyda'i chwaer, Miss Mary Owen, Ashville. Balch ydym o'i chwmni.

**GWAELEDD** – Mae dau o'r pentref mewn ysbyty, sef Miss Williams, Llys Gwynt a Mr Alun Hughes, Morda House. Ein cofion atynt a'n dymuniadau gorau iddynt.

Da gennym weld llawer o'r rhai sydd heb fod yn dda yn ddiweddar yn codi allan eto.

**LLONGYFARCHIADAU** – Llongyfarchwn Delyth Williams, Nant Forgan ar gael ei dewis yn brif ddisgybl y genethod yn Ysgol Brynrefail, Llanrug. Dyma'r ail flwyddyn yn olynol i eneth o'r Cwm dderbyn yr anrhydedd yma, gan fod Delyth yn dilyn Dilys Jones, Meillionen.

**NOSON GOFFI** – Ar Hydref 3, cynhaliwyd Noson Goffi lwyddiannus dan nawdd Cymdeithas Rhieni ac Athrawon yr ysgol. Enillwyr y raffl oedd: Mr T. Gawthorpe, Angorfa (bocs o nwyddau); Mrs G. Jones, 7 Dolafon (potel o sieri). Diolch i bawb am gefnogaeth.

**PLAID LAFUR** – Bu "Beetle Drive" (Gornest Chwilen) yn yr ysgol ar Hydref 10fed fel rhan o weithgarwch cangen leol y Blaid Lafur.

**CYDYMDEIMLO** – Ein cydymdeimlad diffuant â Mr a Mrs Elwyn Foulkes, 2 Tan y Bryn, ar y brofedigaeth a ddaeth i'w rhan fel teulu ym marwolaeth Mr J. Raymond Ellis, Llanberis. Cydymdeimlwn hefyd â Mrs M.E.Hughes, Craig y Don ar farwolaeth ei mab-yng-nghyfraith ym Matlock. Derbynied ei weddw – Betty Hughes gynt – ein cydymdeimlad yn ogystal.

**OES LLUN GAN RYWUN?** – Mae Mr Iorwerth Jones, Caernarfon (Llanrug gynt) yn cael pleser mawr o weld hen luniau timau pêl-droed yr ardal erstalwm. Dywed Mr Jones fod llun arall o dîm Glasgoed wedi ei dynnu tua'r un amser â hwnnw a ymddangosodd yn yr Eco y mis diwethaf. Llun o tua 1908 – 1910. Buasai'n falch iawn pe bai copi ohono gan rywun.

*(Ys gwn i ai'r llun sydd yn ymddangos yn y rhifyn hwn sydd gennych dan sylw? – Gol.)*

# NANT PERIS

**CYDYMDEIMLAD** – Yn ein rhifyn diwethaf yr oeddym yn datgan ein cydymdeimlad â Mrs. J.M. Williams ar golli ei mam. Blin iawn gennym orfod datgan ein cydymdeimlad â Mrs. Williams a'r teulu ar y brofedigaeth syfrdanol o sydyn o golli ei brawd. Derbyniwch fel teulu ein cydymdeimlad cywiraf â chwi yn eich profedigaeth lem.

**LLONGYFARCHION** – a dymuniadau gorau pawb yn y Nant i Mr. William H. Davies, Cae Gwyn ar ddathlu ei benblwydd ar y 18ed o'r mis yn 90 mlwydd oed. Da gennym ddweud fod Mr. Davies yn dal yn heini ac yn mynd o gwmpas bob dydd ac yn cymryd diddordeb arbennig ym mhopeth sydd yn mynd ymlaen yn yr ardal. Y mae ei ffyddlondeb i'r gwasanaethau yn Rehoboth yn batrwm i bob un ohonom ac yn peri i lawer ohonom sydd flynyddoedd yn iau gywilyddio am ein difaterwch. Ein dymuniadau gorau i'r hynaf yn y Nant sydd yn dal mor ifanc ei ysbryd.

**DAMWAIN** – Drwg iawn gennym ddeall fod Mrs. John Morgan, Gwastadnant wedi cael damwain yn ei chartref yn ddiweddar ac wedi torri ei choes. Deallwn mai yn yr ysbyty y mae Mrs. Morgan ar hyn o bryd a dymunwn iddi gael adferiad llwyr a buan i ddod yn ôl i'n plith.

**DYMUNIADAU DA** – i Mr. Hefin Jones, Grove House, Llanberis, sydd bron yn un ohonom yn y Nant, yn dechrau ar ei yrfa yn y Llynges Fasnach. Pob bendith, Hefin, a phob llwyddiant yn dy ddewis waith a gobeithio y cei yrfa lwyddiannus iawn.

**GŴYL DDIOLCHGARWCH** – Cynhaliwyd Dydd Diolchgarwch fel arfer ar y trydydd dydd Llun ym mis Hydref. Yr oedd popeth yn fanteisiol, yr hin yn hyfryd a da oedd gweld cynifer yn treulio'r dydd i ddiolch. Y Cymun Bendigaid a gafwyd yn y bore, gyda'r Parch. Ganon Alun Jones yn gwasanaethu. Yn y prynhawn cafwyd gwasanaeth a phregeth dan arweiniad y Parch. I.M. Jones, Llanbedrog, ac yn yr hwyr Gosber a Phregeth, a'r Parch. T.D. Williams, Cricieth yn gwasanaethu.

Yn Rehoboth treuliwyd y dydd yn ddydd o Weddi. Pump o fechgyn ifanc a dderbyniwyd yn gyflawn aelodau ddiwedd y flwyddyn oedd yn cynnal y gwasanaeth, a chafwyd cyfarfod hynod o raenus a bendithiol ganddynt. Y chwiorydd oedd yn gwasanaethu yng nghyfarfod y prynhawn, a'r plant yn dod â'u rhoddion i'r cyfarfod, a dau ohonynt, David John a Hefin, yn eu danfon i Gartref Bontnewydd. Diolch i Mr. Tom Gwyn Pritchard am fynd â'r bechgyn yno yn ei gar. Y brodyr oedd yn gwasanaethu yng nghyfarfod yr hwyr, a theimlem i gyd i ni gael cyfarfod hyfryd iawn.

Y Sul, gwasnaethwyd yn oedfa'r bore gan y Parch. John Owen, BA., BD., ein cyn-weinidog, ac yn yr Ysgol Sul gweinyddwyd y Sacrament o fedydd gan Mr. Owen trwy fedyddio Nia Wyn, merch fach Mr. a Mrs. D.I. Jones, Tir Bach, Llanllyfni. Ein diolch diffuant i chwi Mr. Owen am eich gwasanaeth.

**GOLEUNI – PA BRYD?** – Yn ystod yr haf pan oedd y dydd yn hir a'r nos yn fyr rhoddwyd sicrwydd i ni gan Gadeirydd Pwyllgor Cymuned Llanberis ar ôl cyfarfyddiad â chynrychiolwyr MANWEB y byddai goleuadau newydd ac ychwanegol yn y Nant ar fyrder. Dywedwyd wrthym y byddai'r gwaith yn cael ei ddechrau ymhen pythefnos fan bellaf ac y byddai goleuadau ychwanegol yn cael eu gosod yn y Nant ac yn mynd ymlaen i'r Nant Uchaf. Dyma hi bellach yn ddiwedd mis Hydref a'r dydd yn byrhau ac mae golau'r Nant yr un mor brin heddiw ag oedd flwyddyn yn ôl. Tybed nad rhyw gornel fach anghofiedig yw'r Nant, nad yw'n bwysig ond ar adeg etholiad. Da o beth fyddai inni fel ardal gael cyfarfod cyhoeddus a chael ein cynrychiolwyr ar y Pwyllgor Cymuned, Arfon a Gwynedd yno i'n cyfarfod i ddweud beth sydd yn digwydd. Os bydd raid disgwyl mor hir am oleuni ag y buom yn disgwyl am faes chwarae i'r plant, yna yn y tywyllwch y bydd trigolion y Nant Uchaf (yn enwedig) am rai blynyddoedd eto. Mae mynd o gwmpas a gweld goleuadau pentrefi cyfagos yn gwneud i ni deimlo fod rhywbeth neu rywrai yn gyfrifol am y gwahaniaeth yma. Ar brifford brysur, heb lwybr troed i gerdded arno, o'r tai cyngor i'r Nant Uchaf mae gwell golau yn wir angenrheidiol, a gorau po gyntaf inni fel ardalwyr wneud hynny yn hollol glir i'r rhai sydd yn ein cynrychioli ac i MANWEB, a mynnu cael gwyboaeth bendant pryd y mae'r gwaith yma yn cael ei ddechrau, a pha faint o amser a gymer i'w gwblhau.

**I'R YSBYTY** – Ar ôl ysbaid fer gartref drwg gennym ddweud fod Mr. Arthur Roberts, Gwyndy wedi ei gymryd yn ôl i Ysbyty Môn ac Arfon. Deallwn y bydd Mr. Roberts yn cael triniaeth lawfeddygol a mawr hyderwn y bydd yn ôl yn ein mysg yn fuan wedi cael llwyr adferiad.

**DIOLCH** – Dymuna Mrs. Jennie Williams, Pennant, ddiolch o galon i berthnasau, cyfeillion a chymdogion am y cardiau, llythyrau a'r anrhegion a dderbyniwyd ganddi ar ôl y driniaeth lawfeddygol yn Ysbyty Môn ac Arfon yn ddiweddar.

Diolch hefyd i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddi yn ystod y ddwy brofedigaeth o golli ei ei mam, a hefyd ei brawd John, mor sydyn ac annisgwyl.




CYNIGIR

**GWOBR O £25** am y TRAETHAWD BUDDUGOL ar y testun **'BRASLUN O HANES LLEOL'** (dros 10,000 o eiriau)

Bydd hawlfraint y traethawd buddugol yn eiddo'r Gymdeithas, a bydd y Gymdeithas yn cyhoeddi'r traethawd hwnnw.

Y Traethodau i fod yn nwylo'r Pwyllgor Gwaith, Gardd ffynnon, Bethel, Caernarfon erbyn Mai 1, 1978.

Gall y Traethawd fod yn gywaith neu'n gynnyrch Cymdeithas Hanes

**CYMDEITHAS COF Y GENEDL**

**GWYLIAU HANESYDDOL** – Penwythnos yng NGWESTY NEUADD MAESMAWR, CAERSWS, Powys. (Gwesty moethus gyda gwres canolog). 4ydd – 6ed o Dachwedd a'r 18fed – 20fed o Dachwedd.

**RHAGLEN** – *Nos Wener: Cinio/Darlith/Adloniant. Dydd Sadwrn: Brecwast Taith diwrnod (gyda sylwebaeth) i safleoedd hanesyddol ar y gororau. Swper Darlith/Adloniant. Bore Sul: Brecwast/Ymadael.* **Y Thema: AMDDIFFYN Y FFIN. Y Darlithwyr: Dr. A.D.CARR,** Coleg y Brifysgol, Bangor yn darlithio ar **'WLEIDYDDIAETH Y GORORAU. Mr. D.Myrddin Lloyd,** Aberystwyth ar **'FEIRDD Y TYWYSOGION'** ym Mhowys.

Danfoner am fanylion ar unwaith at: *C;C. y G., Gardd Ffynnon, Bethel, Caernarfon.* Rhaid cadarnhau lle fis cyn y dyddiad perthnasol.

**Dymunaf ymaelodi â Chymdeithas Cof y Genedl** *(Tâl Aelodaeth £1)*

**Enw**........................................

**Cyfeiriad**........................................



**AR WERTH**

"Rollers" Trydan. (18) Bron yn newydd. *Ffôn: Llanberis 411.*


Beic hogyn 'Raleigh Hostler Racer 3 sbîd. Cyflwr ardderchog. *Ffôn: Y Felinheli 670861.*

**YN EISIAU**

Beic merch mewn cyflwr da. *Ffôn: Waunfawr 332.*



**Os glanhau eich simdde yw eich angen, yna cewch wasanaeth am bris rhesymol gan**



*Defnyddir peiriant sugno i lanhau*

# G. LLOYD

**4 PLAS TIRION TERRACE, LLANRUG**

*Ffôn: Caernarfon 4781*

# PENISARWAUN

**SEFYDLIAD Y MERCHED** – Ar ôl seibiant gwyliau'r haf, cyfarfu aelodau'r sefydliad yn yr ysgol am 7 o'r gloch nos Fawrth, Medi 26. Llywyddwyd gan Mrs. Betty Hughes. Gwnaethpwyd trefniadau ar gyfer yr ymweliad â Llandudno i weld opera ym mis Tachwedd. Croesawyd Mrs. Elfyn Thomas o Gaernarfon i'n plith a chafwyd noson ddifyr dros ben yn gweld addurniadau Nadolig yn cael eu gwneud allan o bapur gan Mrs. Thomas. Cafodd yr aelodau wneud rhai o'r addurniadau. Diolchwyd i Mrs. Thomas gan Mrs. Mary Davies. Rhoddwyd y te gan Mrs. G. Lewis a Mrs. Elinor Jones a diolchwyd iddynt hwythau. Enillwyd y raffl gan Mrs. Eurwen Roberts. Bydd y cyfarfod nesaf nos Fawrth Hydref 25 a disgwylir Mrs. Cemlyn Williams o Gaernarfon i'n diddori.

**YR YSGOL GYNRADD** – Gweler 'Sibrydion o'r Ysgolion'.

**EGLWYS ST. HELEN** – Cafwyd cyfarfod o Undeb y Mamau nos Lun Hydref y trydydd. Cymerodd y Ficer y gwasanaeth, ef hefyd oedd y gŵr gwadd, ac fe ddiddorodd y mamau gyda recordiau Cymraeg. Dymunwyd yn dda i Mrs. Pritchard Pensarn, Mrs. Maddox a Mrs. Nesta Jones sydd yn cwyno.

Rhoddwyd y te gan Mrs. N.M. Pritchard a Mrs. Eirona Williams. Diolchwyd gan Mrs. M. Davies.

**GŴYL Y CYNHAEAF** – Cafwyd cyfarfodydd reit lewyrchus gyda'r Cymun Bendigaid yn y bore, gwasanaeth y plant yn y prynhawn a derbyniwyd eu rhoddion gan y Ficer. Cafwyd Gosber yn yr hwyr a'r Gwir Parch. Ganon Saunders Davies, Bangor yn pregethu. Fe rannwyd y rhoddion i'r hen a'r bobl wael yn y plwyf.

**DYMUNIADAU DA**– i Gwenda Griffith yn ei swydd fel dirprwy gogyddes yn Ysgol David Hughes, Porthaethwy.

Pob hapusrwydd hefyd i Anne Owen wrth iddi ddechrau ar ei gwaith yng Ngholeg Glynllifon.

**GWELLHAD BUAN** – i Mrs. E. Williams, 3 Llys y Gwynt sydd ar hyn o bryd yn Ysbyty Dewi Sant.

**PWYLLGOR LLEOL (Eisteddfod Genedlaethol Cymru)** – Gweler isod y Pwyllgor Lleol a ddewiswyd mewn cyfarfod cyhoeddus nos Fawrth Hydref 4ydd.

Cadeirydd: Y Cynghorydd Mrs. Pat Larsen; Trysorydd: Mrs. Eluned Jones; Cyd-ysgrifenyddion: Mr. Glyn Evans a Mr. Tony Elliot.

Pwyllgor: Mr. Leslie Larsen; Mr. a Mrs. Cynrig Hughes; Mr. a Mrs. Tegid Roberts; Mrs. Eleanor Williams; Mrs. Delyth Williams; Miss Phyllis Ellis; Mr. Alwyn Jones; Mrs. Pritchard; Mrs. Percy Williams; Mrs. E. Porter a Mr Len Jones.

Rhaglen: Tachwedd 5ed; Taith Gerdded Noddedig. Tachwedd 8ed: Cyfarfod nesaf. Rhagfyr: Noson Goffi.

**GWAITH CYNGOR ARFON** – Dywedodd y Cynghorydd Pat Larsen bod y gwaith o sychu'r Gors Goch yn mynd yn ei flaen yn hwylus dan Gynllun Creu Gwaith wedi ei drefnu gan Gyngor Arfon; hefyd dan yr un cynllun bydd gwelliannau i'r ffordd sy'n arwain i fyny at y Cae Chwarae.

**BABAN NEWYDD** – Llongyfarchion i Myfanwy a Len Jones, Fanwylen (Tŷ Capel Glasgoed gynt) ar enedigaeth eu merch fach, Clare Louise.

**NOSON TÂN GWYLLT** – Os bydd y tywydd yn ffafriol cynhelir ein Noson Tân Gwyllt yn y cae arferol nos Sadwrn, y 5ed o Dachwedd. Diolchwn i Mr. J. Jones, Cae Corniog am ei garedigrwydd arferol yn gofalu bod gennym gae ar gyfer yr achlysur. Bydd yno goelcerth, tân gwyllt a lluniaeth wedi ei baratoi gan y merched.

**CYDYMDEIMLAD** – Yr oedd yn ddrwg gan yr ardal glywed am farwolaeth Mr. Arthur Ellis yn 83 oed. Daeth llond Capel Ysgoldy o gyfeillion y gŵr bonheddig hwn, i dalu teyrnged iddo ac i ganu'n iach iddo. Mae ein cydymdeimlad gyda'i weddw, Annie, ei ferch Nansi, ei feibion Gwilym ac Irfon a'r teulu i gyd. Dymunant hwythau ddiolch o galon am y caredigrwydd mawr a dderbyniasant ac am y cydymdeimlad cywir a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth.

**DIOLCH** – Diolchiadau i bawb am yr anrhegion a'r cardiau, ar ran Clare Louise.

# Bethel

**YMDDEOL** – Ar y nawfed o Fedi derbyniodd Mr. Goronwy Owen, Ddôl, oriawr yn anrheg oddi wrth Dennis Ferranti, Bangor, ar ei ymddeoliad. Bu Mr. Owen yn gweithio yn Ferranti am 26 mlynedd.

**CYDYMDEIMLO** – Mae'n cydymdeimlad llwyraf â theulu'r diweddar Mrs. Jenny Coffey, 14 Tan y Cae, gynt, o Fryn Llwyd Saron, yn eu profedigaeth.

**YN GWELLA** – Mae'n dda gennym weld Iwan Jones, 24 Bro Rhos wedi gwella ar ôl ei ddamwain gyda'i feic.

Mae Mr. Tomi Williams wedi cael triniaeth yn yr ysbyty hefyd. Gobeithiwn ei weld o gwmpas eto yn fuan.

**PRIODI** – Dymuniadau gorau i Mr. Alan W. Williams, Bangor a Miss Janet Nora Williams, 4 Cremlyn a briodwyd ar Hydref 8ed yng Nghapel y Cysegr.

**CLWB Y MAMAU** – Nos Fercher, Tachwedd 2ail fe gynhelir ffair yn y Neuadd, wedi ei threfnu gan Glwb y Mamau. Bydd yr elw o'r ffair ar gyfer prynu anrhegion Nadolig i bensiynwyr y pentref.

**PLAID CYMRU** – Nos Fercher, Tachwedd 9ed yn y Neuadd fe gynhelir Cyfarfod Blynyddol cangen Bethel o Blaid Cymru. Croeso i'r holl aelodau a chefnogwyr.

**EISTEDDFOD BETHEL** – Yn ddiweddar cafwyd noson goffi lwyddiannus yn y Neuadd, a'r elw tuag at yr eisteddfod. Gobeithio y ceir eisteddfod lwyddiannus ar yr 11eg a'r 12ed o Dachwedd yn y Neuadd.

**EISTEDDFOD GENEDLAETHOL Caernarfon** – Mae'r Gronfa Leol, gyda nod o £2,250, eisoes wedi ei hagor, gydag addewid o rodd o £10 gan un o bensiynwyr y pentref. Mae hyn yn argoeli'n dda am yr ymgyrch.

Mae'r pwyllgor wedi cyfarfod ddwywaith ac mae nifer o weithgareddau ar y gweill. Swyddogion y pwyllgor yw: Llywydd: Parch. Eryl Ll. Davies; Is-lywydd: Mr. Goronwy Jones; Ysgrifennydd: Mrs. Mair Price; Is-ysgrifennydd: Mr. Dafydd Williams; Trysorydd: Mr. Seiriol Owen.

Bydd yr ymgyrch yn agor gyda Noson Goffi yn y Neuadd, heno, nos Wener, Tachwedd 25.

**MERCHED Y WAWR** – Ar y 12ed o Hydref cafwyd cyfarfod llwyddiannus iawn o'r gangen yng nghwmni Mr. Hughes, Mynydd Llandegai pryd y dangosodd sleidiau o adar a gloynnod byw a geir yn yr ardal. Diolchwyd ar ran y gangen gan Mrs. M. Williams, Gwynfa.

Cafwyd adroddiad gan Mrs. B. Owen o'r Pwyllgor Rhanbarth.

Gwnaed y te gan Mrs. Elen Ellis a Mrs. Eirlys Hughes. Rhoddwyd y raffl gan Mrs. Gwyneth Jones, Fachell ac fe'i henillwyd gan Miss K. Morris, Penrhos. Yn ystod wythnos yr Henoed bu aelodau o'r gangen yn casglu o gwmpas y pentref at yr achos da hwn. Bydd cyfarfod nesaf y gangen yn yr ysgol ar y 9ed o Dachwedd yng nghwmni Miss Meirwen Hughes, Trefor.

**CLWB YR HENOED** – Mae nifer o bobl yn y pentref yn awyddus i ddechrau Clwb i'r Henoed. Mae Clwb i'r Henoed ym mhob pentref o amgylch ac mae llawer o henoed Bethel yn aelodau yn y clybiau yma ond yn teimlo hefyd y dylai fod clwb iddynt ym Methel. Gofynnir i bawb sydd â diddordeb mewn sefydlu clwb ddod i'r Neuadd erbyn 2.00 p.m. ddydd Mawrth, Tachwedd 1af.

**CÔR ADRODD** – Da gennym ddeall fod Mary Wyn Jones, Rhos Saron wedi cychwyn Côr Adrodd Merched, a hwythau'n frwdfrydig iawn; pob llwyddiant iddynt. Mae Mrs. Jones wedi bod ar lwyfan y Genedlaethol ei hunan fwy nag unwaith.

# TEYRNGED I FFRIND

**HEB unrhyw rybudd, yn 62 oed, ynghanol ei lawn iechyd, nos Iau y 29ain o Fedi, bu farw Mr. John Jones, Bod Ifor, Llanrug. Adwaenid ef gan ei gyfeillion agosaf fel John Saer Maen, ond yn anwylach fyth gan blant Ysgol Sul Capel y Bryngwyn, Llanrug fel 'Uncle John'.**

Tarddai o deulu nodedig o grefft fel seiri meini. Ei ddau ewythr, John a William, a Bob Jones ei dad, osododd faen ar faen i adeiladu Ysgol Gynradd Llanrug, dros hanner can mlynedd yn ôl.

Yn fuan wedi adeiladu'r ysgol, symudodd y teulu o Ddyffryn Nantlle i fyw i'r Ceunant, Llanrug, ac yn ddiweddarach i lawr i Gefn Rhythallt.

Dilynodd John grefft ei dad, a bu'n gweithio fel saer maen yn Chwarel Dinorwig, cyn sefydlu fel ymgymerwr iddo'i hunan gan adnewyddu llawer o hen fythynnod y wlad yn drigfannau teilwng i fyw ynddynt.

Cyn y Rhyfel diwethaf ymaelododd ef a'i deulu yng Nghapel y Bryngwyn, Llanrug a bellach John oedd yr aelod olaf o'r teulu yno.

Yn ystod y rhyfel diwethaf bu'n gwasanaethu gyda'r fyddin mewn gwahanol wledydd ar y cyfandir a difyr oedd gwrando arno yn sôn am rai profiadau rhyfedd gafodd yn ystod y cyfnod hwnnw.

Tua 23 mlynedd yn ôl priododd ag Ena merch y diweddar Mr. a Mrs. Evan John Hughes, Bod Ifor, Llanrug. Bu'r ddau yn hynod hapus yn crwydro rhai o wledydd Ewrop a Chanada bob blwyddyn, ar wyliau haf.

Yr oedd ganddo ddawn neilltuol gyda ffigyrau, a buasai wedi gwneud cyfrifydd ardderchog gydag ychydig hyfforddiant. Ymhyfrydai yn ei swydd fel Trysorydd Cyffredinol Capel y Bryngwyn, ef hefyd ofalai am gyfrifon yr Ysgol Sul.

Cafodd yr anrhydedd o arwain Cymanfa Ganu Dosbarth Bethel yn Arfon dair gwaith, yn Salem ddwy waith a Phendref unwaith, a gwnaeth ei waith yn urddasol. Ef hefyd oedd trysorydd y Gymanfa.

Rhoddwyd ei weddillion i orffwys ym mynwent St. Helen's Penisarwaun pnawn Llun y 3ydd o Hydref. Gwasanaethwyd gan y Parchn. Eryl Lloyd Davies, Bethel, Ioan Wynn Gruffydd, Caergybi, W.O. Roberts, Llanrug a Dennis Green, Garndolbenmaen.

Cydymdeimlwn yn fawr â'i weddw, Mrs. Ena Jones a'i unig chwaer Mrs. Jennie M. Williams, Nant Peris a'r teulu oll yn eu galar.

**"Segur fydd y cŷn a'r morthwyl mwy"**

*Tom Tomos*


MODURDY MENAI



FFORDD CAERNARFON
Y FELINHELI
Ffôn : Portdinorwic 882
Perchennog : J. Evans



GORS BACH
PANEL
BEATING
SERVICE
Cwm-y-glo



Ffôn : LLANBERIS 814

GWASANAETH TORRI-LAWR
24 AWR

# Dyddiadur y Mis

Mawrth 1: DEINIOLEN: Dosbarth WEA yn yr Ysgol Gynradd am 7.00. BETHEL: Dosbarth WEA yn yr Ysgol Gynradd am 7.30. LLANBERIS: Undeb y Mamau – Dydd Gŵyl yr Holl Saint. Gwasanaethir y Cymun Bendigaid am 2 o'r gloch.

Mercher 2: BRYNREFAIL: Dosbarth WEA yn Festri'r Capel am 7.30. BETHEL: Ffair Hydref Clwb y Mamau LLANRUG: Y Cyngor Eglwysi – Seiat Agored am 7.00 dan arweiniad y Parch. Gwynfor Williams, Y Rheithor. LLANBERIS: Clwb y Mamau yn y Ganolfan am 7.30, pryd y ceir sgwrs gan Mr. Rol Williams, Waunfawr. Y Gymdeithas Ddrama yn cyfarfod. Pwyllgor Apêl Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon am 7 yn yr Ysgol.

Iau 3: WAUNFAWR: Clwb Gwyrfai yn cyfarfod. Sefydliad y Merched yn cyfarfod. LLANRUG: Twmpath Dawnsio Gwerin yn Neuadd Ysgol Brynrefail dan nawdd Pwyllgor Rigarug. Cymdeithas y Chwiorydd, Capel Mawr am 7.00. LLANBERIS: Clwb Gwyddbwyll yn y Fictoria am 7.00. Dosbarth WEA – 'Byd Natur' gyda Mrs. Mary Vaughan Jones, BSc., Waunfawr yn yr Ysgol am 7.30.

Gwener 4: PENISARWAUN: Gyrfa Chwist yn Neuadd yr Eglwys am 7.30. WAUNFAWR: Dosbarth WEA Arlunio yn yr ysgol am 7.00. LLANRUG: Clwb Dawnsio Hen Amser yn yr Ysgol Gynradd am 8.00. DEINIOLEN: Ffair Gaeaf yn Ysgol Gwaun Gynfi dan nawdd Cangen Plaid Cymru am 7.00 CLWB ERYRI: Noson yng ngofal Mr. Richard Jones.

Sadwrn 5: PENISARWAUN: Taith Gerdded Noddedig. Yr elw tuag at Gronfa yr Eisteddfod Genedlaethol. Noson Tân Gwyllt.
BRYNREFAIL: Noson Tân Gwyllt a Barbeciw yng nghae chwarae'r pentref am 6.00.

Llun 7: BETHEL: Dosbarth Cadw'n Heini yn y Neuadd am 7.30. Dosbarth Gwnio yn yr ysgol. LLANRUG: Dosbarth WEA yn yr Ysgol Gynradd am 7.00. LLANBERIS: Clwb Methedig Eryri am 2.00. Gyrfa Chwist dan nawdd y Clwb Pêl-droed am 7.30. Dosbarth WEA Arlunio am 7.00. PEN-Y-PASS: Dosbarth WEA yn yr Hostel am 7.45. WAUNFAWR: Cymdeithas Undebol – yng ngofal Mr. Robert Jones a Mr. Norman Williams.

MAWRTH 8: DEINIOLEN: Dosbarth WEA yn yr ysgol am 7.00. Clwb Elidir yn cyfarfod. CWM-Y-GLO: Undeb y Mamau. LLANRUG: Merched y Wawr. WAUNFAWR: Y Cyngor Cymdeithas. Yr Aelwyd. BETHEL: Dosbarth WEA yn yr ysgol am 7.30. PENISARWAUN: Pwyllgor yr Eisteddfod Genedlaethol yn Neuadd yr Eglwys am 6.45.

Mercher 9: BRYNREFAIL: Dosbarth WEA am 7.30. Llanberis: Bingo dan nawdd Cangen Blaid Lafur yn y Ganolfan am 7.30. WAUNFAWR: Yr Urdd. Dosbarth Cadw'n Heini yn Neuadd yr Eglwys.. BETHEL: Merched y Wawr.

Iau 10: LLANBERIS: Disco dan nawdd Cangen Plaid Cymru yn y Ganolfan am 7.00. Dosbarth WEA 'Byd Natur' am 7.30. Clwb Gwyddbwyll am 7.00. Llanrug: Ffair Gaeaf Rigarug yn Neuadd Ysgol Brynrefail. WAUNFAWR: Clwb y Mamau yn yr Ysgol Gynradd am 7.30.

Gwener 11: BETHEL: Eisteddfod Gadeiriol. WAUNFAWR: Dosbarth WEA Arlunio am 7.00. Ffair y "Guild" yn Neuadd yr Eglwys. LLANBERIS: Clwb yr Henoed. LLANRUG: Clwb Dawnsio Hen Amser am 8.00.

Sadwrn 12: BETHEL: Eisteddfod Gadeiriol. WAUNFAWR: Eisteddfod Flynyddol yr Ardal yng Nghapel Croesywaun. Prynhawn a nos.

Sul 13: SUL Y COFIO: LLANBERIS: Gwasanaeth wrth y Gofeb am 11.00 y bore. LLANRUG: Gwasanaeth o flaen y Sefydliad Coffa am 9.45.

Llun 14: BETHEL: Dosbarth Gwnio yn yr ysgol. LLANBERIS: Clwb Methedig Eryri am 2.00. Gyrfa Chwist dan nawdd y St. John's am 7.30. Dosbarth WEA Arlunio am 7.00. LLANRUG: Dosbarth WEA am 7.00. WAUNFAWR: Dosbarth WEA 'Hanes Lleol' am 7.15.

Mawrth 15: DEINIOLEN: Dosbarth WEA am 7.00. WAUNFAWR: Yr Aelwyd. BETHEL: Dosbarth WEA am 7,30. LLANRUG: Cymdeithas Undebol – Addurno Ffynhonnau gyda Mr. Emrys Evans, Monallt.

Mercher 16. BRYNREFAIL: Dosbarth WEA am 7.30. LLANBERIS: Clwb y Mamau yn y Ganolfan am 7.30 pryd y ceir sgwrs gan Dr. Alun Morris. Y Gymdeithas Ddrama.

Iau 17: WAUNFAWR: Clwb Gwyrfai. LLANBERIS: Dosbarth WEA 'Byd Natur' am 7.30. Clwb Gwyddbwyll am 7.00. Disco sonic system Two yn y Ganolfan am 7.00. Er budd y Clwb Pêl-droed.

Gwener 18: PENISARWAUN: Gyrfa Chwist yn Neuadd yr Eglwys am 7.30. Noson Goffi. Yr elw at Gronfa'r Ysgol Gynradd. BETHEL: Sefydliad y Merched. WAUNFAWR: Cangen Plaid Cymru yn cyfarfod.

Llun 21: WAUNFAWR: Y Gymdeithas Undebol. DEINIOLEN: Merched y Wawr – sgwrs gan Miss Eleanor Jones ar rai o'i theithiau. LLANRUG: Dosbarth WEA am 7.00. BETHEL: Dosbarth Cadw'n Heini am 7.30. Dosbarth Gwnio. LLANBERIS Clwb Methedig Eryri am 2.00. Gyrfa Chwist dan nawdd y Clwb Pêl-droed am 7.30. Dosbarth WEA Arlunio am 7.00.

Mawrth 22: BETHEL: Dosbarth WEA am 7.30. DEINIOLEN: Dosbarth WEA am 7.00. Clwb Elidir yn cyfarfod. WAUNFAWR: Yr Aelwyd.

Mercher 23: WAUNFAWR: Dosbarth Cadw'n Heini. Yr Urdd. BRYN–REFAIL: Dosbarth WEA am 7.30. LLANBERIS: Bingo dan nawdd Cangen Plaid Lafur yn y Ganolfan am 7.30. Y Gymdeithas Ddrama.

Iau 24: LLANBERIS: Sefydliad y Merched am 7.00 yn y Ganolfan. Clwb Gwyddbwyll am 7.00. WAUNFAWR: Merched y Wawr – Cinio Nadolig ym Mhlas Tan Dinas.

Gwener 25: LLANBERIS: Clwb yr Henoed. WAUNFAWR: Dosbarth WEA Arlunio am 7.00. LLANRUG: Clwb Dawnsio Hen Amser am 8.00.

Llun 28: BETHEL: Dosbarth Cadw'n Heini am 7.30. Dosbarth Gwnio. LLANRUG: Dosbarth WEA am 7.00. WAUNFAWR: Dosbarth WEA Hanes Lleol am 7.15. LLANBERIS: Clwb Methedig Eryri am 2.00. Gyrfa Chwist dan nawdd y St. John's yn y Ganolfan am 7.30. Dosbarth WEA Arlunio am 7.00.

Mawrth 29: LLANRUG: Y Gymdeithas Undebol – Y Parch. G. Maelor Jones, Bontnewydd yn sôn am ei waith ynglŷn â'r Cartref. DEINIOLEN: Dosbarth WEA am 7.00. WAUNFAWR: Yr Aelwyd.

Mercher 30: BRYNREFAIL: Dosbarth WEA am 7.30. LLANBERIS: Clwb y Mamau yn y Ganolfan am 7.30 pryd y ceir sgwrs gan Mr. Selwyn Griffith, Bethel. Y Gymdeithas Ddrama. LLANRUG: Tombola dan nawdd y Seindorf yn yr Ysgol Gynradd.

## DYDDIADAU I'W COFIO


Rhagfyr 2: Eisteddfod Eglwysi St. Peris a St. Padarn

Rhagfyr 10: Cinio Nadolig Cangen Plaid Cymru Deiniolen yng Ngwesty'r Fictoria.

Rhagfyr 13: Cinio Nadolig Merched y Wawr Llanrug yng Ngwesty'r Fictoria

Rhagfyr 15: Cinio Nadolig Clwb Gwyrfai Waunfawr.

# Croesair RHIF 18



ENW........................................................................................

CYFEIRIAD...............................................................................

..............................................................................................

### AR DRAWS

1. Gwers – Gwyddor bywyd anianol (7)
5. Siarad yn amharchus am Dduw (5)
8. Brwydro (5)
9. "Dim ond......o'u cylch ymhob man/ Neb i ddweud am Dduw" (7)
10. Gwneud eich hunain yn barod (9)
12. Enw bachgen (3)
13. Dyffryn o fan (6)
14. Dylai hyn fod yn berthnasol i Awst (6)
17. Bachgen yw Ian yn ôl perthynas hefyd (3)
18. Maldod neu hoffter efallai (9)
20. Gwaeledd (7)
21. Perffaith – heb ei fai (5)
23. Offeryn nefolaidd!! (5)
24. Bochgoch (6)

### I LAWR

1. Pantri neu gaffi (5)
2. Ebych (3)
3. Yn dal y sylw (7)
4. Man aros!! (6)
5. "Ehanga 'mryd a gwared fi Rhag....o bob rhyw" (5)
6. Sanctaidd a gwynfydedig (9)
7. Diffyg amrywiaeth (7)
11. Llesol (9)
13. Eglur a therfynol (7)
15. Bwlch neu hollt (7)
16. Troi tir!! (6)
18. Fe ganodd dau o Sir Fôn am dri o rai tew (5)
19. Stori i ddysgu'r Gwirionedd (5)
22. Amcan neu bwrpas ond gall fod yn farc (3)

**Cyfrifir y llythrennau canlynol fel un llythyren: CH, DD, FF, NG, LL, PH, RH, TH.**

**Gwobr o £1 i'r ateb cywir cyntaf a dynnir ar ôl i'r holl gynigion ddod i law. Anfoner y cynigion i *Myrddin Owen, 32 Stryd Fawr, Llanberis.***

### ATEBION CROESAIR RHIF 17

**AR DRAWS:** (1) Tebot. (5) Tatws. (8) Arwyr. (9) Ifanc. (10) Ysigo. (11) Larwm. (12) Inc. (13) Si. (14) Sonedwr. (18) Uwd. (19) Ond. (21) Iselder. (25) Cu. (26) Isa. (28) Tranc. (29) Baner. (30) Organ. (31) Yn awr. (32) Neges. (33) Dychan.

**I LAWR:** (1) Tridiau. (2) Blancedi. (3) Taclus. (4) Gwerin. (5) Trymed. (6) Trin. (7) Stori. (15) Oel. (16) Ebe. (17) Robin Goch. (20) Draenen. (22) Estrys. (23) Diamau. (24) Record. (25) Coban. (27) Unig.

**ENILLYDD CROESAIR RHIF 17 : Miss Mary Williams, 5 'Rallt, Gerlan, Bethesda.**

# CHWARAEON

## Y DEWRAF......

**PE dywedid wrthych fod bachgen o Benisarwaun a medalau a thystysgrifau ganddo am rasio dros 60 medr, 'rwy'n siŵr mai darlun o redwr cyhyrog, chwimgoes a ddôi i'r meddwl. Byddai'n bictiwr hollol anghywir, gan na redodd Dafydd Williams gam yn ei fywyd. Bu ynghlwm wrth gadair olwyn er ei enedigaeth. Nid drwy risiau cropian, cerdded a rhedeg y daeth hwn yn bencampwr.**

Ym Mryn Tirion, Penisarwaun mae Dafydd yn byw, a ganed ef â'r clwyf trychinebus hwnnw, y 'spina bifida'. Ac eithrio ei goesau, sydd heb ddatblygu o gwbl, mae'n fachgen holliach, llawen, a phâr o freichiau cyhyrog arno yn dyst o flynyddoedd o wthio eu hun o gwmpas yn ei gadair.



Yn honno y byddai'n gwthio ei hun i Ysgol Gynradd y pentref, pan na fyddai rhai o'r bechgyn eraill o gwmpas i roi hwb iddo, ac yno ystyrid ef yn ei waith ysgol fel plentyn hollol gyffredin. Yn un ar ddeg oed daeth y cyfle iddo i fynd i Ysgol y Gogarth, Llandudno, ysgol a adeiladwyd yn arbennig ar gyfer plant â nam corfforol arnynt, ac yno daeth cyfle cyntaf iddo i roi bodolaeth i'w ddiddordeb mewn chwaraeon.

Fel pob bachgen arall, pêl-droed a mabolgampau fyddai un o'i brif ddiddordebau, ond yn wahanol i'r mwyafrif, ni allai Dafydd gymryd rhan yn chwaraeon plant y pentref. Gwelais ef droeon yn rhan o gêm bêl-droed, yn gyrru ei gadair ar ôl y bêl, ond 'roedd rhai pethau digon cyffredin na allai ef yn amlwg mo'u gwneud.

Yn Ysgol y Gogarth, daeth i gysylltiad ag eraill oedd yn yr un cwch, a darganfod gemau newydd, a rhai wedi eu haddasu ar gyfer plant mewn cadeiriau. Dyma'r cyfle iddo ddangos ei fedr, ac yn fuan daeth yn bencampwr yr ysgol ar rasio yn ei gadair, taflu'r ddisgen, y pwysau a'r waywffon. Bu'n aelod o dimau pêl-droed (mewn cadair), a phêl law yr ysgol. Yn 1974, yn ei flwyddyn olaf yn yr ysgol daeth y cyfle iddo i'w cynrychioli yng ngemau chwaraeon y Methedig yng Ngerddi Soffia, Caerdydd, ac yno dangosodd ei fod ymhlith goreuon Cymru hefyd.

Bu'n hynod lwyddiannus gan ennill y ras 60 medr mewn cadeiriau, y ras igam-ogam mewn cadeiriau, taflu'r pwysau a'r ddisgen, a thaflu'r pastwn. Daeth yn ail yng nghystadleuaeth taflu'r waywffon, ac mae'r tystysgrifau a gyflwynwyd iddo ymhlith ei drysorau anwylaf.

Yn 16 oed daeth diwedd ei yrfa yn Llandudno, ac i ffwrdd ag o i Goventry, ac i Goleg arbennig ar gyfer y methedig. Dysgwyd ef yno i glercio, teipio ac i redeg swyddfa, a llwyddodd yn ei arholiadau i ennill Tystysgrif Gwaith Swyddfa. Nid astudio yn unig fu ei hanes ychwaith, gan fod cyfleusterau arbennig iawn yno ar gyfer chwaraeon. Daeth yn aelod o dîm y Coleg yn fuan, ac mewn cystadlaethau yn erbyn Colegau a Chlybiau tebyg enillodd iddo ei hun dair medal.

Gadawodd y coleg ddwy flynedd yn ôl, a chymwysterau da ganddo, ond bu'n anodd iawn iddo daro ar swydd. Er cynnig am y mwyafrif o'r rhai oedd yn gofyn am weithiwr swyddfa, "na" oedd yr ateb hyd at dri mis yn ôl, pan dderbyniwyd ef yn glarc i reolwr adran yn Ferodo, Caernarfon.

Bu'n ffodus yn y cyfnod tywyll hwnnw bod car bach glas, tair olwyn, ar gyfer y methedig, wedi ei roi iddo, a hwn yn rhoi rhyddid newydd iddo, yn ei alluogi i grwydro'r wlad heb fod yn ddibynnol ar neb ond ef ei hun.

Erys ei ddiddordeb mewn chwaraeon cyn gryfed ag erioed, a daeth y cyfle iddo yn ddiweddar i gystadlu yn y profion i ddewis tîm Cymru yn Stoke Mandeville, ond methodd â fforddio'r arian i fynd yno. Yr un yw ei broblem pan gynhelir y chwaraeon blynyddol yng Nghaerdydd – y gost o fynd yno, ac nid yw'r cyfle i gystadlu wedi disgyn iddo er pan ddaeth o'r Coleg.

Er hyn, erys Dafydd yn greadur hapus, a'i agwedd tuag at fywyd yn holliach. Byddai llawer ohonom sydd ganmil gwell ein byd nag ef yn cywilyddio o dreulio hanner awr yn ei gwmni. Teimlaf nad amarch i goffadwriaeth T. Rowland Hughes fyddai mabwysiadu ei feddargraff ac urddo Dafydd â'r teitl **'Y Dewraf o'n Chwaraewyr.**

# Pêl-droed

## CYNGHRAIR CAERNARFON A'R CYLCH

| | Chwarae | Ennill | Cyfartal | Colli | Gôl O B I. | Gôl Yn er. | Pwynt |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1. Llanrug | 10 | 8 | 2 | 0 | 42 | 12 | 18 |
| 2. Llanberis | 10 | 8 | 2 | 0 | 39 | 13 | 18 |

**Mis ardderchog i dimau'r ardal, a'r ddau yn ymladd â'i gilydd am fod ar ben y gynghrair.**

### LLANBERIS

1.10.77.

Llanberis 4 Y Coleg Normal 3

Gêm gyffrous, y myfyrwyr yn ymladd yn galed am bob pêl, ac yn rhoi braw i'r bechgyn lleol. Bu'n ofynnol i Lanberis sgorio deirgwaith yn y deng munud olaf i sicrhau'r pwyntiau.

8.10.77

CWPAN GYFRYNGOL GOGLEDD CYMRU

Penmaenmawr Pheonix 0
Llanberis 3

Yn ôl i'r llwch fydd yn rhaid i'r ffenics yma fynd ple mae'r cwpan hwn yn y cwestiwn. Bu dwy gôl gan Iwan Evans ac un arall gan Ray Harding yn fwy na digon i glipio ei adenydd.

15.10.77

Llanberis 3 Talysarn 1

Gêm ddigon blêr oedd hon, ond 'roedd yn amlwg o'r dechrau mai Llanberis oedd y tîm gorau, ac mai y nhw fyddai'n ennill. Einion Holland, Ray Harding ac Iwan Evans fu'n llwyddiannus iddynt.

22.10.77

CWPAN IAU GOGLEDD CYMRU 2il ROWND

Llanberis 5 Amlwch 0

Mae Llanberis hwythau yn y drydedd rownd, ar gost un o dimau Môn. Buddugoliaeth dda, a Llanberis yn cynnwys am y tro cyntaf ddau fachgen o bumed dosbarth ysgol Brynrefail yn y tîm. Bu'r ddau, Gwyndaf Jones a Wyn Evans, yn llwyddiannus hefyd, gan sgorio gôl yr un.

1–0 oedd hi ar hanner amser, a'r gwynt cryf yn gefn i Amlwch, ond yn yr ail hanner agorodd y llifddorau, a daeth pedair gôl arall; Ray Harding (2) a Dick Parry yn cwblhau'r sgorio.

### LLANRUG

**1.10.77: Mountain Rangers 1 Llanrug 5**

Dechrau anhygoel bron, gyda Llanrug ar y blaen yn y munud cyntaf. Hefin Jones yn croesi'r bêl; pawb yn ei methu, a'r bêl yn diweddu yng nghefn y rhwyd! Ychwanegodd Hefin ei gôl gyntaf o fewn ychydig funudau. 'Roedd amddiffynfa Rangers ar goll yn lân yn wyneb ymosodiadau Llanrug, ac yn colli) – 4 erbyn yr egwyl – y ddwy gôl arall gan Peter Roberts a Len Padmore. Yn yr ail hanner, Rangers yn defnyddio'r trap cam-ochri ac yn cadw Llanrug rhag sgorio mor rhwydd. Un gôl yr un yn yr ail hanner, gôl olaf Llanrug gan Barrie Pitts.

8.10.77.

Caernarfon Res. 1 Llanrug 1

Cyfle i Lanrug fynd i ben y gynghrair gan fod Llanberis mewn cwpan, ond colli pwynt gwerthfawr yn erbyn tîm cryf o Gaernarfon yn cynnwys nifer o chwaraewyr gyda phrofiad yn eu tîm cyntaf. Gwynfor Owen yn rhoi Llanrug ar y blaen, ond Caernarfon yn ei gwneud yn gyfartal o'r smotyn gwyn

15.10.77

Llanrug 8 Cricieth 0

Llanrug yn neidio i ben y Gynghrair ar ôl rhoi'r gurfa hon i Gricieth. Pedair gôl ymhob hanner a'r cyfnod mwyaf cyffrous yn dod yn neg munud gyntaf yr ail hanner pan sgoriodd Llanrug dair gwaith a methu o'r smotyn gwyn! Barrie Pitts a Dic Owen yn cael 3 gôl yr un a Len Padmore yn sgorio'r ddwy arall

22.10.77

CWPAN IAU GOGLEDD CYMRU 2ail ROWND

Llanrug 4 Millbank Swifts 0

Dwy gôl ymhob hanner yn anfon Millbank Swifts o ben Ail Gynghrair Clwyd – yn ôl i'r Rhyl ar ôl colli eu gêm gyntaf y tymor hwn. Gêm galed iawn, ond sydynrwydd blaenwyr Llanrug yn ennill y gêm iddynt. Dic Owen yn rhoi Llanrug ar y blaen o ddwy gôl cyn yr egwyl – ar ôl symudiad da o ganol y cae gan Gwynfor Owen.

Yn yr ail hanner, Hefin Jones yn synnu amddiffynfa Millbank gydag ergyd galed yn gadael y gôlgeidwad yn ymbalfalu am y bêl. Tair gôl ar y blaen, ond 'doedd Llanrug ddim wedi gorffen. Barrie Pitts yn rhedeg hanner y cae, ochr-gamu heibio'r golgeidwad a phlannu'r bêl yng nghefn y rhwyd i wneud y gêm yn berffaith ddiogel.



### GOBAITH AM GAP

**MAE Dafydd Evans o Ddeiniolen, disgybl ym mhedwaredd blwyddyn Ysgol Brynrefail wedi ei ddewis yn un o 60 pel-droedwyr dan 15 oed gorau Cymru i'w hyfforddi gan Mike Smith, rheolwr y tîm Cenedlaethol yng Nghaerdydd.**

**Bydd carfan o 15 chwaraewr yn cael eu dewis ar ddiwedd y cwrs, a'r rhain fydd yn cynrychioli Cymru yn eu gemau rhyngwladol.**